Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
42/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
11/07/2018

# Teitl: Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-78937-679-1

Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017
Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2016-2017 – Arolwg Ail-gysylltu

Awdur(on):
Chris Timmins, Beaufort Research
Owen Knight, Beaufort Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc 2017; Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 42/2018.>
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid rhai Llywodraeth Cymru o anghenraid

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Hayley Collicott:
Yr Is-adran Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: Hayley.Collicott@gov.cymru

## Tabl y cynnwys


Rhestr o'r tablau ..... 2
Rhestr o'r ffigurau ..... 2

1. Cyflwyniad ..... 4
2. Agweddau tuag at smacio ..... 10
3. Deall ymddygiad smacio ..... 16
4. Newid ymddygiad smacio ..... 26
5. Gwerthuso'r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* ..... 38
6 Casgliadau ..... 43

Atodiad 1 – Holiadur yr arolwg ..... 45
Atodiad 2 – Pwysoli'r data ..... 58
Atodiad 3 – Dadansoddiadau ychwanegol gan rieni sy'n dweud eu bod weithiau'n smacio neu byth yn smacio ..... 60

## Rhestr o'r tablau

Tabl 1.1: Y ffrâm samplu a metrigau'r gwaith maes ........ 7

Tabl 1.2: Dadansoddiad o oedran plant 0-6 oed ........ 7

Tabl 2.1: Agweddau tuag at smacio plentyn drwg yn ôl y rhai sydd wedi smacio'u plentyn ac nad ydynt wedi smacio'u plentyn yn y 6 mis diwethaf ........ 12

Tabl 2.2: Barn bersonol ynglŷn â smacio eich plant yn ôl y rhai sydd wedi smacio ac nad ydynt wedi smacio yn y 6 mis diwethaf ........ 14

Tabl 2.3: A yw'n briodol smacio dan amgylchiadau amrywiol - 2017 o'i gymharu â 2015 (%).. ........ 15

Tabl 4.1: Technegau a ddefnyddiwyd yn y 6 mis diwethaf i reoli ymddygiad plant yn ôl pa un a allan smacio weithiau ai peidio ........ 32

Tabl 4.2: Y dechneg fwyaf effeithiol i reoli ymddygiad plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio ........ 33

Tabl 4.3: A yw rhieni'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu lefelau amrywiol o gosb gorfforol yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio ........ 35

Tabl A.1 Targedau a ffactorau pwysoli ........ 59

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 2.1: Y ganran sy'n cytuno â'r gosodiad 'mae angen smacio plentyn drwg weithiau' yn ôl blwyddyn yr arolwg ........ 11

Ffigur 2.2: Wrth reoli ymddygiad eich plant a ydych wedi [eu smacio] yn y 6 mis diwethaf? (Y ganran a roddodd bob ymateb yn ôl blwyddyn yr arolwg) ........ 11

Ffigur 2.3: Pa un sydd agosaf at eich barn bersonol ynglŷn â smacio eich plant (Y ganran a roddodd bob ymateb yn ôl blwyddyn yr arolwg) ........ 13

Ffigur 2.4: A ydynt yn credu ei bod yn briodol smacio plentyn dan amgylchiadau amrywiol (Y ganran a roddodd bob ymateb) ........ 14

Ffigur 3.1: Agweddau cyffredinol tuag at smacio (Canran yr holl gyfranogwyr) ........ 17

Ffigur 3.2: Rhywedd rhiant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ........ 17

Ffigur 3.3: Oedran rhiant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ........ 18

Ffigur 3.4: Y math o aelwyd yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ........ 19

Ffigur 3.5: Cwintel amddifadedd yr ardal y maent yn byw ynddi yn ôl a allant smacio weithiau ai peidio (%) ........ 20

Ffigur 3.6: Cyrhaeddiad addysgol rhiant yn ôl a all smacio weithiau ai peidio (%) ........ 21

Ffigur 3.7: Bodlonrwydd ag agweddau ar fywyd yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio ........ 22

Ffigur 3.8: A ydynt yn meddwl ei bod yn briodol smacio i'w hatal rhag gwneud rhywbeth niweidiol neu beryglus iddynt hwy eu hunain yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ........ 24

Ffigur 3.9: A ydynt yn dweud ei bod yn briodol smacio i atal plant rhag gwneud rhywbeth sy'n niweidiol neu'n beryglus i blentyn arall yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) .. ........ 24

Ffigur 3.10: A ydynt yn dweud ei bod yn briodol smacio am resymau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio ..... 25

Ffigur 4.1: A ydynt erioed wedi chwilio am wybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 27

Ffigur 4.2: Ffynonellau gwybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant (y ganran a roddodd bob ymateb) ..... 27

Ffigur 4.3: Sut yr oeddent yn cael gafael ar wybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant (y ganran a roddodd bob ymateb) ..... 28

Ffigur 4.4: I ba raddau yr oedd cyngor wedi helpu gyda sgiliau rhianta a hyder yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 29

Ffigur 4.5: A oeddent wedi gweld gwybodaeth neu a oedd gwybodaeth wedi cael ei rhoi iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 30

Ffigur 4.6: Sut y gwelont wybodaeth neu y rhoddwyd gwybodaeth iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol (y ganran a roddodd bob ymateb) ..... 31

Ffigur 4.7: A ydynt yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 34

Ffigur 4.8: Agweddau tuag at ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio (y ganran a roddodd bob ymateb) ..... 36

Ffigur 4.9: Agweddau tuag at ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio – 2017 o'i gymharu â 2015 (y ganran a roddodd bob ymateb) ..... 37

Ffigur 5.1: Ymwybyddiaeth o'r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn ôl rhywedd ac oedran y rhiant (%) ..... 38

Ffigur 5.2: Ymwybyddiaeth o'r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 39

Ffigur 5.3: Negeseuon yr ymgyrch a oedd yn cael eu cofio ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol ohono (Mae'r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau)) ..... 40

Ffigur 5.4: Gweithgareddau a wnaed gan y rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch (Mae'r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau)) ..... 41

Ffigur 5.5: Cytundeb â gosodiadau am yr ymgyrch ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol ohono. (Mae'r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau)) ..... 42

Ffigur A.1: Trefol/ gwledig a deiliadaeth yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 60

Ffigur A.2: Bodlonrwydd ar ymddygiad eu plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio ..... 61

Ffigur A.3: Cytuno â gosodiadau am ofalu am blant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%) ..... 62

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y cefndir a'r amcanion

1.1 Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i gynorthwyo rhieni i fabwysiadu dulliau cadarnhaol o reoli ymddygiad eu plant a hybu eu datblygiad. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru, Symud Cymru Ymlaen[1] yn nodi ei hymrwymiad i gefnogi rhieni, sy'n cynnwys bwriad i geisio cefnogaeth drawsbleidiol i ddeddfwriaeth i roi terfyn ar yr amddiffyniad "Cosb Resymol". Mae'r strategaeth genedlaethol, Ffyniant i Bawb[2], yn rhoi eglurder a chyfeiriad i'r ymrwymiadau hyn. Un o'r pum maes blaenoriaeth yn y strategaeth yw'r blynyddoedd cynnar ac mae rôl rhieni'n allweddol i hyn. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod rhianta hyderus, cadarnhaol a chadarn yn hanfodol i baratoi plant ar gyfer bywyd a phwysigrwydd rhoi help a chefnogaeth i rieni.

1.2 Ym mis Tachwedd 2015 fe lansiodd Llywodraeth Cymru ymgyrch rhianta cadarnhaol (*Magu plant. Rhowch amser Iddo*.[3]), sy'n amcanu at wneud y canlynol:

- annog rhieni i ddod o hyd i fwy o wybodaeth am rianta cadarnhaol;
- codi ymwybyddiaeth o negeseuon ynghylch rhianta cadarnhaol;
- cynyddu nifer y rhieni a gwarcheidwaid sy'n ymwybodol o strategaethau anghorfforol i reoli ymddygiad plant a manteision y rhain.

1.3 Cafodd yr ymgyrch hwn ei oleuo gan ganfyddiadau dau ddarn o waith ymchwil – i. Grwpiau ffocws ymhlith rhieni a oedd yn archwilio'r materion uchod mewn mwy o fanylder[4]. ii. arolwg meintiol a gynhaliwyd trwy Beaufort ar ei Arolwg Omnibws Cymru lle gofynnwyd cwestiynau i oedolion (a oedd yn rhieni ac nad oeddent yn rhieni) am: y dulliau a ddefnyddir i reoli ymddygiad plant; o ble y cafwyd gwybodaeth; agweddau tuag at gosb gorfforol; a rôl deddfwriaeth ar y mater hwn[5].

---

[1] http://gov.wales/docs/strategies/160920-taking-wales-forward-cy.pdf
[2] http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf
[3] http://giveittime.gov.wales/splash?orig=/
[4] http://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parenting-practices-child-discipline/?lang=cy
[5] http://gov.wales/statistics-and-research/survey-attitudes-towards-managing-childrens-behaviour/?lang=cy

Prif gynulleidfa darged yr ymgyrch tan 2017-2018 oedd rhieni a gwarcheidwaid plant 0-5 oed yng Nghymru[6] ac fe gynhaliwyd arolwg sylfaen ymhlith y cohort hwn i holi am eu hagweddau tuag at arferion rhianta a disgyblaeth plant. Darparodd Llywodraeth Cymru ffrâm samplu a oedd ar gael yn rhwydd ar gyfer yr ymchwil hon – ymatebwyr i Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-2015 a oedd yn rhieni i blant 0-5 oed ac a gytunodd ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy ar gyfer ymchwil yn y dyfodol. Digwyddodd y gwaith maes yn hydref 2015 cyn lansio'r ymgyrch ac fe gyfwelwyd â chyfanswm o 387 o rieni neu warcheidwaid[7].

1.4 Casgliad arolwg 2015 oedd; *'Mae agweddau tuag at smacio yn gallu newid, ac yn newid, a cheir arwyddion y gallai mwy o bobl gefnogi newid deddfwriaethol na'i wrthwynebu, er nad oes yma farn y mwyafrif ar hyn o bryd.'* Gan adlewyrchu hyn, ddwy flynedd yn ddiweddarach aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu astudiaeth sy'n adeiladu ar yr ymchwil hon; i ddarparu dealltwriaeth gynhwysfawr a chyfoes am agweddau rhieni yng Nghymru tuag at ystod o faterion sy'n canolbwyntio ar eu rôl fel rhieni/gwarcheidwaid, a dulliau y maent yn eu defnyddio i reoli ymddygiad eu plant.

1.5 Yn benodol roedd yr ymchwil wedi'i bwriadu i ymchwilio i'r amcanion canlynol:

- Dulliau rhieni o reoli ymddygiad plant a chymelliadau sylfaenol;
- Agweddau rhieni tuag at gosb gorfforol a deddfwriaeth a fyddai'n cyfyngu neu'n cwtogi ar ddefnyddio cosb gorfforol;
- Dewisiadau rhieni o ran ceisio gwybodaeth a chyngor perthnasol;
- I ba raddau y mae rhieni'n ymwybodol o'r ymgyrch *Magu Plant. Rhowch Amser Iddo*;
- Barn rhieni ynglŷn ag adnoddau'r ymgyrch, a'u defnydd ohonynt – y wefan, Facebook, clipiau wedi'u hanimeiddio a thaflenni;
- Deall gwahaniaethau gydag astudiaeth 2015.

[6] O 2018 estynnwyd y gynulleidfa darged i gynnwys rhieni a gwarcheidwaid plant 0-7 oed.
[7] http://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?lang=cy

## 1.2 Methodoleg yr ymchwil

### Ffrâm samplu a chynyddu'r gyfradd ymateb i'r eithaf

1.6 Fel yn arolwg 2015, cafodd y ffrâm samplu a ddefnyddiwyd yn yr arolwg hwn ei ddarparu gan Arolwg Cenedlaethol Cymru (2016-2017)[8]. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion 843 o rieni \ gwarcheidwaid plant 0 i 5 oed[9] (ar adeg eu cyfweliad ar gyfer yr Arolwg Cenedlaethol) a oedd wedi cytuno ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy at ddibenion ymchwil.

1.7 Roedd yn bwysig bod yr arolwg yn cynyddu i'r eithaf nifer yr ymatebion o'r ffrâm samplu gymharol fach a chymerwyd y camau canlynol:

- **Galwadau lluosog** i bob cyswllt – fe wnaed hyd at 10 galwad ar wahân;
- **Dull hyblyg o gyfweld**. Er bod y rhan fwyaf o'r cyfweliadau wedi cael eu cynnal yn hwyr yn y prynhawn / gyda'r nos (4pm-9pm) er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd rhieni a oedd yn gweithio a rhieni nad oeddent yn gweithio, cynhaliwyd rhai cyfweliadau y tu allan i'r oriau hyn ar gais cyfranogwyr y cysylltwyd â hwy;
- Cynhaliwyd cyfweliadau yn yr **wythnos waith safonol ac ar benwythnosau**;
- Fe wnaed **apwyntiadau** gyda'r rhai nad oeddent yn gallu cyfranogi ar adeg y cyswllt cychwynnol;
- Cafodd yr holiadur ei gadw i **hyd ymarferol** – fe'i cyfyngwyd i ryw 15 munud i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cydymffurfio.

---

8 http://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=current&lang=cy

9 Y sampl y tynnwyd arni oedd rhieni plant 0 i 5 oed ar adeg eu cyfweliad ar gyfer Arolwg Cenedlaethol 2016-2017. Gan fod gwaith maes ar gyfer yr arolwg dilynol o Reoli Ymddygiad Plant wedi cael ei gynnal yn hwyrach yn 2017 (Hydref / Tachwedd), roedd y rhieni hyn yn gallu cynnwys y rhai yr oedd ganddynt bellach blentyn a oedd hyd at 6 blwydd oed. Felly cyfeirir atynt fel rhieni plant 0 – 6 blwydd oed pan adroddir ar ganlyniadau'r arolwg.

**Gwaith Maes**

1.8 Eto, gan gynnal cysondeb ag arolwg 2015, cafodd ymatebwyr gyfweliad dros y ffôn a chynhaliwyd y cyfweliadau rhwng 5 Hydref a 3 Tachwedd 2017.

1.9 Cynigiwyd y cyfle i'r holl ymatebwyr gymryd rhan yn yr arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ar y cyfan, cyflawnwyd cyfradd ymateb o **44%**, ac mae'r dadansoddiad o hwn fel a ganlyn:

**Tabl 1.1: Y ffrâm samplu a metrigau'r gwaith maes**

| | |
|---|---|
| Rhestr gyswllt wreiddiol o Arolwg Cenedlaethol Cymru | 843 |
| Dim rhifau ffôn | 92 (11%) |
| Rhifau anghywir | 125 (15%) |
| Dim plant chwe blwydd neu iau | 15 (2%) |
| Ffrâm samplu ddiwygiedig | 611 |
| Wedi gwrthod cymryd rhan | 71 (12%) |
| Wedi methu cysylltu â hwy | 271 (44%) |
| **Cyfweliadau a gwblhawyd** | **269** |
| **Cyfradd ymateb** | **44%** |
| *Cyfanswm y galwadau a wnaed* | *8,039* |

1.10 Cynhaliwyd y rhan fwyaf o gyfweliadau yn Saesneg (99%) gyda'r gweddill yn Gymraeg. Mewn 96% o'r achosion cynhaliwyd y cyfweliad gyda'r un unigolyn ag a gwblhaodd Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2016-2017, gyda 4% yn cael eu cynnal gyda rhiant neu warcheidwad arall yn yr un aelwyd. Roedd gan bob un o'r 269 o ymatebwyr o leiaf un plentyn a oedd yn chwe blwydd oed neu iau, y gellir eu dadansoddi fel a ganlyn.

**Tabl 1.2: Dadansoddiad o oedran plant 0-6 oed**[10]

| | |
|---|---|
| 0 oed | 27 (10%) |
| 1 oed | 55 (20%) |
| 2 oed | 59 (22%) |
| 3 oed | 66 (24%) |
| 4 oed | 52 (19%) |
| 5 oed | 74 (28%) |
| 6 oed | 35 (13%) |

*Sail: Yr holl rieni (269)*

[10] Roedd gan rai rhieni fwy nag un plentyn a oedd yn 6 oed neu iau ac felly nid yw'r canrannau'n gwneud cyfanswm o 100%

**Holiadur**

1.11 Roedd yr holiadur yn adeiladu ar fersiynau blaenorol a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygon meintiol eraill Llywodraeth Cymru o agweddau tuag at reoli ymddygiad plant:

- Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc (2015)[11]; a
- Rheoli ymddygiad, agweddau ac arferion plant – Arolwg Omnibws Cymru (2013).[12]

1.12 Roedd yr holiadur cyfredol yn cynnwys adrannau ar y canlynol:

- Llesiant a rhianta;
- Agweddau tuag at smacio;
- Ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio;
- Cefnogaeth i newidiadau mewn deddfwriaeth;
- Ymddygiadau rhianta;
- Gwasanaethau cymorth i rieni;
- Ymwybyddiaeth a barn am yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*.

1.13 Ar gyfartaledd roedd yn cymryd 15 munud i'w gwblhau. Lle'r oedd yn bosibl, cafodd cwestiynau eu cadw'n gyson ag astudiaethau blaenorol i'w gwneud yn bosibl dwyn cymariaethau. Ceir copi o'r holiadur yn Atodiad 1.

**Pwysoli'r data, cymariaethau a phrofion ystadegol**

1.14 Cafodd y sampl derfynol o gyfweliadau ei phwysoli yn ôl ffactorau demograffig allweddol er mwyn cynrychioli rhieni plant 0 i 5 oed yng Nghymru. Y ffactorau oedd:

- Rhywedd y rhiant;
- Oedran y rhiant;
- Deiliadaeth;
- Math o aelwyd (aelwyd â rhiant sengl \ dau riant);

[11] http://gov.wales/statistics-and-research/attitudes-parents-towards-managing-young-childrens-behaviour/?lang=cy
[12] http://gov.wales/statistics-and-research/survey-attitudes-towards-managing-childrens-behaviour/?lang=cy

- Cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

Mae manylion y modd y pwysolwyd y sampl i'w cael yn Atodiad 2.

1.15 Cafodd arolwg 2015, Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc, ei gynnal gan ddefnyddio'r un dechneg casglu data (arolwg dros y ffôn), gyda'r un grŵp targed (rhieni plant 0 i 5 oed) a chan ddefnyddio ffrâm samplu tebyg (y grŵp o gyfweleion diweddaraf i gwblhau Arolwg Cenedlaethol Cymru ar yr adeg honno, h.y. 2014-2015).

1.16 Gan hynny, lle mae cwestiynau cyfatebol wedi cael eu gofyn yn arolwg 2017, gellir dwyn cymariaethau'n hyderus ag arolwg 2015.

1.17 Drwyddi draw yn yr adroddiad hwn dygir cymariaethau rhwng arolygon 2015 a 2017 i fesur a yw ymddygiad ac agweddau wedi newid. Mae'r adroddiad yn defnyddio profion ystadegol i gymharu canlyniadau o'r ddau arolwg.

1.18 Lle adroddir bod gwahaniaeth rhwng y ddau arolwg yn arwyddocaol yn ystadegol, mae hyn yn golygu bod y gwahaniaeth hwn yn debygol o fod yn bresennol yn y boblogaeth ar y cyfan (h.y. holl rieni \ gwarcheidwaid plant 0-6 oed yng Nghymru) dros y cyfnod hwn yn hytrach na digwydd trwy hap a damwain yn unig (gwall samplu).

1.19 Defnyddir profion ystadegol hefyd i benderfynu a yw gwahaniaethau ymddygiadol neu o ran agweddau rhwng gwahanol grwpiau o rieni (er enghraifft, grwpiau oedran neu rywedd gwahanol) yn arolwg 2017 yn rhai y gellir eu cyffredinoli i'r boblogaeth hefyd (holl rieni \ gwarcheidwaid plant 0-6 oed yng Nghymru).

1.20 Er mwyn i wahaniaeth gael ei ddisgrifio fel un sy'n arwyddocaol yn ystadegol yn yr adroddiad hwn, mae tebygolrwydd o lai na 5% bod y gwahaniaeth a ganfuwyd yn y sampl wedi digwydd trwy hap a damwain (gwall samplu) – h.y. rydym 95% yn hyderus y gellir cymhwyso'r gwahaniaeth i'r boblogaeth gyffredinol ac nid dim ond y rhai sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg.


## 2. Agweddau tuag at smacio

2.1 Mae’r adran gyntaf ar ganfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar agweddau tuag at smacio ymhlith rhieni plant 0-6 oed gan gynnwys cwestiynau am eu barn gyffredinol ynglŷn â smacio, a ddylid defnyddio smacio dan amgylchiadau amrywiol ac a yw rhieni wedi defnyddio smacio fel ffordd o reoli ymddygiad eu plant eu hunain. Lle mae cwestiynau cyfatebol yn bodoli o arolwg 2015 (Agweddau Rhieni tuag at Reoli Ymddygiad Plant Ifanc) dygir cymariaethau i fesur a yw agweddau wedi newid dros y cyfnod hwn.

2.2 Gofynnwyd i rieni i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu’n anghytuno â’r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau*. Roedd y mwyafrif o’r rhieni (81%) yn anghytuno â’r gosodiad hwn gan gynnwys 68% a oedd yn anghytuno’n gryf. Dim ond 11% oedd yn cytuno bod angen smacio plentyn drwg weithiau ac roedd y rhan fwyaf o’r rhain yn cytuno i ryw raddau (10%) yn hytrach na chytuno’n gryf (1%).

2.3 Mae Ffigur 2.1 isod yn cymharu canfyddiadau arolwg 2017 â’r cwestiwn cyfatebol yn arolwg 2015. Mae hyn yn dynodi bod rhieni bellach yn fwy tebygol o anghytuno â’r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau* ac mae profion ystadegol yn cadarnhau bod y gwahaniaeth ym mhatrwm yr ymatebion yn arwyddocaol, gan olygu y gellir cyffredinoli’r gwahaniaeth i’r boblogaeth ehangach, yn hytrach na’i fod wedi digwydd trwy hap a damwain yn unig.


**Ffigur 2.1: Y ganran sy'n cytuno â'r gosodiad 'mae angen smacio plentyn drwg weithiau' yn ôl blwyddyn yr arolwg**




*Sail: Pawb (2017 – 269, 2015 – 387)*

2.4 Pan ofynnwyd a oeddent wedi smacio'u plant yn y 6 mis diwethaf (fel ffordd o reoli eu hymddygiad), dywedodd 11% eu bod wedi gwneud. Er y gallai rhywun ddadlau bod rhywfaint o ddymunoldeb cymdeithasol[13] yn yr atebion a roddir yn ystod arolwg ffôn, mae'n ddiddorol nodi, o'i gymharu ag arolwg 2015 (a gynhaliwyd yn yr un modd), bod y ffigwr hwn wedi haneru fel a ddangosir yn Ffigur 2.2. Mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol – h.y. gall y gwahaniaeth yn y cyfrannau a ddywedodd eu bod yn smacio gael ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 2.2: Wrth reoli ymddygiad eich plant a ydych wedi [eu smacio] yn y 6 mis diwethaf? (Y ganran a roddodd bob ymateb yn ôl blwyddyn yr arolwg)**




*Base: All (2017 – 269, 2015 – 387)*

[13] Math o fias ymateb yw bias dymunoldeb cymdeithasol sy'n ymwneud â thuedd ymatebwyr i arolwg i ateb cwestiynau mewn modd y bydd eraill yn edrych yn ffafriol arno.

2.5 Pe bai agweddau tuag at smacio'n trosi'n uniongyrchol yn ymddygiad yna gellid disgwyl bod yr 11% a oedd yn cytuno bod angen smacio plentyn drwg yn cyfateb â'r 11% a ddywedodd eu bod wedi smacio eu plentyn yn y 6 mis diwethaf. Fodd bynnag, ceir rhai rhieni sy'n arddel safbwynt anghyson-yr-olwg yn yr ystyr eu bod yn anghytuno â'r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau* ond yn dweud eu bod wedi smacio eu plentyn eu hunain yn y 6 mis diwethaf i reoli ei ymddygiad. Mae tua thraean (31%) o'r rhai sydd wedi smacio yn y 6 mis diwethaf yn arddel y safbwynt yma, sy'n cyfateb i 4% o'r holl rieni.

**Tabl 2.1: Agweddau tuag at smacio plentyn drwg yn ôl y rhai sydd wedi smacio'u plentyn ac nad ydynt wedi smacio'u plentyn yn y 6 mis diwethaf**

| | | **Wedi smacio yn y 6 mis diwethaf** | |
|---|---|---|---|
| | Pawb | Do | Naddo |
| **Cytuno bod angen smacio plentyn drwg weithiau** | **%** | **%** | **%** |
| Cytuno'n gryf | 1 | 8 | 2 |
| Cytuno i ryw raddau | 10 | 47 | 13 |
| Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | 7 | 14 | 7 |
| Anghytuno i ryw raddau | 14 | **25** | 13 |
| Anghytuno'n gryf | 68 | **6** | 65 |


*Sail: Pawb (269), wedi smacio yn y 6 mis diwethaf (29), heb smacio yn y 6 mis diwethaf (227)*

2.6 Roedd cwestiwn pellach yn yr arolwg wedi'i fwriadu i roi dewis mwy manwl i rieni o ran mynegi eu barn am smacio. Gwahoddwyd ymatebwyr i ddewis pa un o'r tri gosodiad canlynol oedd yn cynrychioli eu barn am smacio orau:

- Rwy'n meddwl ei bod wastad yn anghywir smacio plentyn, ac ni wnaf hynny;
- Dydw i ddim yn hoff o'r syniad o smacio plentyn ond fe wnaf hynny os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio; ac
- Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o smacio plentyn ac fe wnaf hynny pan wyf yn meddwl bod angen.

2.7 Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 2.3, sydd eto'n cymharu canlyniadau arolygon 2017 a 2015.

**Ffigur 2.3: Pa un sydd agosaf at eich barn bersonol ynglŷn â smacio eich plant (Y ganran a roddodd bob ymateb yn ôl blwyddyn yr arolwg)**




*Base: All (2017 – 269, 2015 – 387)*

2.8 Yn gyntaf, mae'n ddiddorol nodi, pan gynigir dewis amgylchiadol yn hytrach na'r ateb cadarnhaol/negyddol syml yn y cwestiynau blaenorol, bod mwy o rieni'n dweud eu bod yn smacio – 31%, er nad yw'r rhan fwyaf o'r rhain (26%) yn hoff o'r syniad o smacio ond yn gwneud hyn os nad yw unrhyw beth arall yn gweithio. Dim ond 5% a ddywedodd eu bod yn gyfforddus gyda'r syniad ac y byddant yn ei wneud pan fo angen.

2.9 Mae hefyd yn amlwg, fel y patrwm a welwyd gyda chwestiynau blaenorol, bod cyfran rhieni a ddywedodd yn 2017 y gallant droi at smacio wedi gostwng – 31% o'i gymharu â 44% yn 2015. I'r gwrthwyneb, felly, ceir cynnydd yng nghyfran y rhieni sy'n dweud eu bod yn meddwl bod smacio wastad yn anghywir ac na fyddant yn gwneud hynny. Mae'r cynnydd hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i boblogaeth ehangach plant 0 i 6 oed.

2.10 Pan fo canlyniadau'r cwestiwn hwn yn cael eu cymharu'n uniongyrchol ag ymddygiad smacio y dywedwyd amdano (6 mis diwethaf), dengys Tabl 2.2 y rhoddir cyfrif am bawb a ddywedodd eu bod wedi smacio yn y 6 mis diwethaf yn y ddau 'gategori smacio' yn y cwestiwn mwy manwl. Mae hyn yn dynodi y gall y dewis amgylchiadol hwn yn hytrach na'r cwestiwn mwy damcaniaethol ynglŷn â'r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau* roi adlewyrchiad gwell o ymddygiad.

**Tabl 2.2: Barn bersonol ynglŷn â smacio eich plant yn ôl y rhai sydd wedi smacio ac nad ydynt wedi smacio yn y 6 mis diwethaf**


| | | Wedi smacio yn y 6 mis diwethaf | |
|---|---|---|---|
| | Pawb | Do | Naddo |
| **Barn ynglŷn â smacio** | | | |
| Wastad yn anghywir ac ni wnaf hynny | 68 | 0 | 77 |
| Ddim yn hoff o'r syniad, ond byddaf yn ei wneud os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio | 26 | 72 | 20 |
| Yn gyfforddus gyda'r syniad a byddaf yn ei wneud pan fo angen | 5 | 25 | 3 |
| Ddim yn gwybod | 1 | 3 | - |

*Sail: Pawb (269), wedi smacio yn y 6 mis diwethaf (29), heb smacio yn y 6 mis diwethaf (227)*

2.11 Cyflwynwyd lefel bellach o fanylder o ran agweddau rhieni tuag at smacio trwy ofyn i rieni a oeddent yn meddwl bod smacio'n briodol dan amgylchiadau penodol. Mae'r amgylchiadau hyn ac ymateb rhieni i'w gweld yn ffigur 2.4 isod.

2.12 Maent yn datgelu bod tua 3 ym mhob 10 rhiant yn dweud y byddai'n briodol smacio plentyn i'w atal rhag gwneud rhywbeth sy'n niweidiol neu'n beryglu iddo'i hun (30%) neu i blentyn arall (29%). Fodd bynnag, mae llawer llai'n dweud y byddai'n briodol er mwyn rheoli ymddygiad arall – dim ond 6% sy'n ystyried bod smacio'n briodol pan fo ymddygiad allan o reolaeth a 7% fel cosb am ymddygiad drwg.

**Ffigur 2.4: A ydynt yn credu ei bod yn briodol smacio plentyn dan amgylchiadau amrywiol (Y ganran a roddodd bob ymateb)**




*Sail: Pawb (269)*

2.13 Dengys Tabl 2.3 sut y mae canlyniadau'r cwestiwn hwn yn 2017 yn cymharu â'r cwestiwn cyfatebol yn arolwg 2015. Maent yn dangos, ar gyfer pob amgylchiad, bod cyfran y rhieni sy'n dweud eu bod yn meddwl bod smacio'n briodol wedi gostwng. Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth ym mhatrwm yr ymatebion ar gyfer pob amgylchiad yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly ni ellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

**Tabl 2.3: A yw'n briodol smacio dan amgylchiadau amrywiol - 2017 o'i gymharu â 2015 (%)**

| | 2017 | | 2015 | |
|---|---|---|---|---|
| | Ydy | Nac ydy | Ydy | Nac ydy |
| **Amgylchiadau smacio** | | | | |
| I atal perygl / niwed iddynt hwy | 30 | 64 | 35 | 63 |
| I atal perygl / niwed i blentyn arall | 29 | 65 | 34 | 64 |
| Fel dewis olaf | 26 | 69 | 34 | 65 |
| Pan fo ymddygiad allan o reolaeth | 7 | 88 | 9 | 90 |
| Fel cosb am ymddygiad drwg | 6 | 90 | 9 | 90 |

*Sail: Pawb (2017 – 269, 2015 – 387)*

# 3. Deall ymddygiad smacio

3.1 Nod y bennod hon yw rhoi dealltwriaeth am rai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â rhieni sydd wedi dweud eu bod yn smacio dan rai amgylchiadau penodol. Mae'r ffactorau a fydd yn cael eu harchwilio'n cynnwys:

- newidynnau demograffig;
- newidynnau economaidd-gymdeithasol;
- newidynnau o ran bodlonrwydd ar fywyd;
- newidynnau o ran gofal plant;
- newidynnau amgylchiadol.

3.2 Caiff rhieni a all smacio dan rai amgylchiadau penodol eu diffinio fel y rhai a ymatebodd fel a ganlyn i'r cwestiwn a archwiliwyd yn yr adran flaenorol ar farn ynglŷn â smacio:


- Dydw i ddim yn hoff o'r syniad o smacio plentyn ond fe wnaf hynny os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio;
- Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o smacio plentyn ac fe wnaf hynny pan wyf yn meddwl bod angen.

3.3 Y rhai a ddywedodd na fyddent yn smacio yw rhieni a atebodd y cwestiwn hwn trwy ddweud:

- Rwy'n meddwl ei bod wastad yn anghywir smacio plentyn, ac ni wnaf hynny.

3.4 Er mwyn symlrwydd bydd y ddau grŵp yma'n cael eu diffinio fel 'yn smacio weithiau' a 'byth yn smacio' ac mae'r rhaniad rhwng y ddau grŵp yma i'w weld yn ffigur 3.1:

**Ffigur 3.1: Agweddau cyffredinol tuag at smacio (Canran yr holl gyfranogwyr)**





*Base: All (269)*

## Demograffeg[14]

3.5 Mae ffigurau 3.2 a 3.3 isod yn dangos dosbarthiad y ddau grŵp ymateb o ran rhywedd ac oedran – y rhai sy'n smacio weithiau a'r rhai sydd byth yn smacio.

3.6 O ran rhywedd mae'r ddau ddosbarthiad yn debyg iawn ac mae profion ystadegol yn cadarnhau na ellir ystyried bod y gwahaniaethau bach yn arwyddocaol.

**Ffigur 3.2: Rhywedd rhiant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

[14] Mae dadansoddiad pellach o ymddygiad smacio yn ôl demograffeg arall (gan gynnwys deiliadaeth a lleoliad trefol/gwledig) ac agweddau tuag at ymddygiad plentyn a gofalu am blentyn wedi'i gynnwys yn Atodiad 3.

3.7 Er bod gwahaniaethau rhwng proffil oedran y ddau grŵp i'w gweld ychydig yn fwy amrywiol gyda'r rhai 35+ oed yn fwy amlwg yng nghategori'r rhai sy'n smacio weithiau, ni ellir ystyried bod y rhain yn arwyddocaol yn ystadegol ar sail profion ystadegol ac felly ni ellir eu cymhwyso i'r boblogaeth ehangach.

**Ffigur 3.3: Oedran rhiant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

3.8 Gan hynny, mae'r arolwg yn awgrymu nad yw oedran[15] na rhywedd y rhiant neu'r gwarcheidwad yn ffactorau arwyddocaol i egluro'r ymddygiad smacio y dywedwyd amdano.

3.9 Mae Ffigur 3.4 yn dangos yr un dadansoddiad gan ystyried y math o aelwyd – h.y. a oedd dau oedolyn yn yr aelwyd ynteu a oedd yn aelwyd â rhiant sengl. Roedd proffiliau'r ddau grŵp 'smacio' yn ôl y newidyn hwn yn debyg iawn ac felly nid yw'n darparu unrhyw dystiolaeth bod y math o aelwyd yn ffactor pwysig sy'n pennu ymddygiad smacio.

[15] Mae oedran yn y cyd-destun hwn yn gyfyngedig i bobl dan 40 yn bennaf gan fod 82% o'n sampl o rieni / gwarcheidwaid plant 0-6 oed dan 40

**Ffigur 3.4: Y math o aelwyd yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

**Economaidd-gymdeithasol**

3.10 Gan ddefnyddio newidynnau a grëwyd o atebion ymatebwyr o Arolwg Cenedlaethol Cymru, gellir archwilio dwy agwedd bellach ar gyfer y rhai sydd byth yn smacio ac sy'n smacio weithiau:


- Lefel amddifadedd yr ardal y mae'r rhiant\gwarcheidwad yn byw ynddi;
- Cyrhaeddiad addysgol y rhiant.

3.11 Dangosir proffil y ddau grŵp smacio yn ôl y ffactorau hyn yn ffigur 3.5 a 3.6. Mae lefel amddifadedd yr ardal y mae rhieni'n byw ynddi'n seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae hwn yn darparu trefn restrol o bob un o'r 1,909 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru gan ystyried nifer o ffactorau amddifadedd. Mae safleoedd 1,909 ACEHI yn y drefn restrol wedi cael eu rhannu'n gwintelau gan olygu bod C1 yn cynrychioli'r 20% ACEHI fwyaf amddifadus yng Nghymru a C5 yn cynrychioli'r rhai lleiaf amddifadus.

3.12 Roedd y rhai nad ydynt byth yn smacio'n fwy tebygol o berthyn i'r cwintel lleiaf amddifadus (C5) ac roedd y rhai sy'n smacio weithiau yn fwy tebygol o berthyn i'r cwintel mwyaf amddifadus (C1). Fodd bynnag, nid yw cwintelau eraill yn cyd-fynd â'r patrwm hwn – er enghraifft roedd C4 (yr ail gwintel lleiaf amddifadus) yn fwy tebygol o berthyn i'r categori yn smacio weithiau tra bod C2 (yr ail gwintel mwyaf

amddifadus) yn fwy tebygol o berthyn i'r categori byth yn smacio. Mae profion ystadegol yn cadarnhau nad oes gwahaniaeth arwyddocaol ar y cyfan mewn ymatebion o ran patrwm y lefelau amddifadedd rhwng y ddau grŵp, ac felly nid oes tystiolaeth yn yr arolwg hwn i awgrymu bod hwn yn ffactor pwysig sy'n pennu ymddygiad smacio.

**Ffigur 3.5: Cwintel amddifadedd yr ardal y maent yn byw ynddi yn ôl a allant smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

3.13 Yn yr un modd, mae'r arolwg yn cofnodi bod y rhai sydd yn y grŵp sydd byth yn smacio ychydig yn fwy tebygol o fod wedi'u haddysgu'n well – mae 54% wedi ennill lefelau 4-8 yn y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol[16] o'i gymharu â 49% yn y grŵp sy'n smacio weithiau (ffigur 3.6). Fodd bynnag, mae profion ystadegol yn awgrymu nad yw hyn yn arwyddocaol ac felly ni ellir dweud bod y canfyddiad hwn yn cynrychioli'r boblogaeth ehangach.

[16] Fframweithiau cymwysterau sy'n diffinio ac yn cysylltu lefelau a gwerthoedd credydau gwahanol gymwysterau yw lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol. Mae 9 lefel ar y cyfan, o lefel mynediad i lefel 8. Lefelau 4 i 8 yw'r pum lefel uchaf ac mae cymwysterau ar y lefelau hyn yn amrywio o Dystysgrif Addysg Uwch i Ddoethuriaeth. Ceir manylion pellach yma.

**Ffigur 3.6: Cyrhaeddiad addysgol rhiant yn ôl a all smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*


## Llesiant

3.14 Roedd cyfres o gwestiynau yn yr arolwg yn gofyn i ymatebwyr ddatgan pa mor fodlon oeddent ar wahanol agweddau ar eu bywyd gan gynnwys eu hiechyd, eu cartref, yr ardal y maent yn byw ynddi a bywyd ar y cyfan.

3.15 Caiff eu bodlonrwydd ar bob un o'r rhain wedi'i rannu rhwng y ddau grŵp smacio ei ddangos yn ffigur 3.7. I ddechrau, ni waeth a ydynt yn y grŵp sy'n smacio weithiau neu'r grŵp sydd byth yn smacio, dywedodd y mwyafrif o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon (naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon) ar bob un o'r agweddau hyn ar eu bywyd – er enghraifft dywedodd 95% o'r ymatebwyr eu bod yn fodlon ar eu bywyd ar y cyfan (59% yn fodlon iawn, 36% yn weddol fodlon).

3.16 O ran perthynas y newidynnau hyn o ran llesiant â'r grwpiau smacio, roedd y rhai a ddywedodd na fyddent byth yn smacio'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon iawn ar bob agwedd ar eu bywyd – er enghraifft, dywedodd 63% o'r rhai nad ydynt byth yn smacio eu bod yn fodlon iawn ar eu bywyd ar y cyfan o'i gymharu â 48% o'r grŵp sy'n smacio weithiau.

**Ffigur 3.7: Bodlonrwydd ag agweddau ar fywyd yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

3.17 Ar gyfer tri allan o'r pedwar newidyn – cartref, iechyd a bywyd ar y cyfan – nid yw profion ystadegol yn cadarnhau bod perthynas rhwng y ffactorau llesiant hyn a thuedd i smacio.

3.18 Fodd bynnag, mae'n canfod bod bodlonrwydd ar yr ardal y maent yn byw ynddi'n gysylltiedig ag ymddygiad smacio. Felly er y canfuwyd nad yw'r math o ardal ei hun (o ran amddifadedd) yn effeithio ar ymddygiad smacio, ymddengys bod perthynas rhwng y ffordd y mae ymatebwyr yn teimlo am yr ardal y maent yn byw ynddi a phan un a fyddent yn smacio ai peidio.


**Amgylchiadau a all achosi smacio fel ymateb**

3.19 Gofynnwyd i rieni a fyddent yn smacio ai peidio dan ystod o wahanol amgylchiadau a chaiff y canfyddiadau cyffredinol ar gyfer hyn a'r gymhariaeth rhyngddynt a chanfyddiadau 2015 eu trafod yn adran 2.

3.20 Yn yr adran hon rydym yn archwilio i ba raddau y mae'r amgylchiadau hyn yn dylanwadu ar duedd gyffredinol i smacio fel a ddiffinnir gan y grŵp sydd byth yn smacio ac sy'n smacio weithiau. Mae'r cwestiwn hwn eisoes wedi cael ei ateb hyn rhannol – mae'r grŵp sy'n smacio weithiau'n cynnwys y rhai sy'n anghyfforddus gyda'r syniad o smacio ac a fyddai'n ei wneud pan fo angen yn ogystal â'r rhai nad ydynt yn hoff o'r syniad o smacio, *ond a fyddai'n gwneud hynny os nad oes unrhyw beth arall yn gweithio*. Mae'r elfen olaf yn cynnwys y mwyafrif o'r grŵp sy'n smacio weithiau (84%) ac sydd felly wedi awgrymu'n barod bod tuedd i smacio'n gysylltiedig ag amgylchiadau.

3.21 Mae Ffigur 3.8 yn ystyried a ddywedodd rhieni ei bod yn briodol smacio plentyn i'w atal rhag gwneud rhywbeth sy'n beryglus neu'n niweidiol i'r plentyn ei hun. Roedd y rhai sy'n perthyn i'r grŵp sy'n smacio weithiau'n llawer mwy tebygol o ddweud ei bod yn briodol smacio dan yr amgylchiadau hyn (61% o'i gymharu ag 17% ar gyfer y grŵp sydd byth yn smacio) a chadarnhaodd profion ystadegol bod y gwahaniaeth yn y patrwm ymateb yn arwyddocaol, sy'n golygu y gellir ei gymhwyso i'r boblogaeth ehangach. Mae'n ddiddorol nodi bod rhai yn y grŵp sydd byth yn smacio (17%) wedi dweud dan yr amgylchiadau hyn eu bod yn teimlo y byddai'n briodol smacio.


**Ffigur 3.8: A ydynt yn meddwl ei bod yn briodol smacio i'w hatal rhag gwneud rhywbeth niweidiol neu beryglus iddynt hwy eu hunain yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

3.22 Gwelir canlyniad tebyg iawn mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch priodoldeb smacio i atal plentyn rhag gwneud rhywbeth sy'n niweidiol neu'n beryglus i blentyn arall. Mae'r grŵp sy'n smacio weithiau'n llawer mwy tebygol o ddweud eu bod yn credu bod hyn yn briodol ac mae'r gwahaniaeth yn gyfforddus arwyddocaol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Eto mae grŵp o rieni sydd 'byth yn smacio' (12%) sy'n dweud y byddai'n briodol dan yr amgylchiadau hyn.

**Ffigur 3.9: A ydynt yn dweud ei bod yn briodol smacio i atal plant rhag gwneud rhywbeth sy'n niweidiol neu'n beryglus i blentyn arall yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

3.23 Mae ffigur 3.10 isod yn dangos sut y mae'r grŵp sydd byth yn smacio ac sy'n smacio weithiau'n ymateb i'r cwestiwn ynghylch priodoldeb smacio fel adwaith i ymddygiad – fel cosb am ymddygiad drwg a phan fo ymddygiad allan o reolaeth.

3.24 Mae gwahaniaeth mewn patrymau ymateb rhwng y ddau grŵp yn yr ystyr bod y grŵp sy'n smacio weithiau'n fwy tebygol o ddweud y byddai smacio'n briodol yn y ddau fath o amgylchiadau a ddisgrifir yma. Roedd y gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.

3.25 Fodd bynnag, mae patrwm cyffredinol y canlyniadau'n wahanol i'r canlyniadau ar gyfer smacio i atal niwed neu berygl i eraill. Hyd yn oed ymhlith y rhai sy'n smacio weithiau, dim ond tuag un rhan o bump sy'n dweud y byddai'n briodol smacio pan fo ymddygiad allan o reolaeth (22%) neu fel cosb am ymddygiad drwg (19%). Ar gyfer y rhai a ddywedodd nad ydynt byth yn smacio, mae'n annhebygol iawn y byddant yn dweud eu bod yn smacio mewn ymateb i'r amgylchiadau hyn (ac eithrio 1%).

**Ffigur 3.10: A ydynt yn dweud ei bod yn briodol smacio am resymau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

# 4. Newid ymddygiad smacio

4.1 Mae'r canfyddiadau a drafodwyd ym mhennod 2 yn yr adroddiad hwn yn awgrymu y bu newidiadau mewn agweddau ac ymddygiad smacio y dywedwyd amdano gan yr ymatebwyr eu hunain. Cofnodwyd gwahaniaethau rhwng canlyniadau'r arolwg hwn a'r arolwg cyfatebol yn 2015 o ran agweddau rhieni – h.y. llai ohonynt yn cytuno â'r gosodiad *mae angen smacio plentyn drwg weithiau* a hefyd cynnydd yn y rhai sy'n dweud *Rwy'n meddwl ei bod wastad yn anghywir smacio plentyn, ac ni wnaf hynny*. Hefyd, dywedodd 11% o rieni eu bod wedi smacio yn y 6 mis diwethaf i reoli ymddygiad eu plentyn o'i gymharu â 22% yn 2015.


4.2 Mae'r bennod hon yn ystyried sut y gallai ymddygiad smacio ac agweddau gael eu newid ymhellach trwy ystyried i ba raddau y mae rhieni'n cael gafael ar gyngor a gwybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad eu plant a sut a ble y maent yn cael gafael ar y rhain. Mae hefyd yn archwilio mynychder technegau eraill a ddefnyddir i reoli ymddygiad yn ôl yr hyn a ddywedwyd gan yr ymatebwyr eu hunain ac yn olaf wybodaeth am ddeddfwriaeth mewn perthynas a smacio a lefel y gefnogaeth i wahardd smacio.

## Cyngor a chymorth

4.3 Dywedodd cyfanswm o 40% o rieni eu bod wedi ceisio cyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad eu plant. Roedd y rhai a ddywedodd nad ydynt byth yn smacio[17] eu plant yn fwy tebygol o ddweud eu bod wedi ceisio cyngor neu wybodaeth na'r rhai sy'n smacio weithiau (Ffigur 4.1). Fodd bynnag nid yw'r gwahaniaeth hwn yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni ellir cyffredinoli'r canfyddiad i'r boblogaeth ehangach.

[17] Fel a ddiffinnir ym mhennod 4


**Ffigur 4.1: A ydynt erioed wedi chwilio am wybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

4.4 Pan ofynnwyd o **ble** y cawsant yr wybodaeth hon a'r cyngor hwn, dywedwyd mai'r rhyngrwyd oedd y ffynhonnell cyngor a gwybodaeth fwyaf poblogaidd ar gyfer rheoli ymddygiad plant – 52% o'r rhai a oedd wedi chwilio am wybodaeth a chyngor erioed. Yr atebion mwyaf poblogaidd ar ôl hynny oedd gweithiwr iechyd proffesiynol (35%), ysgol (20%) a ffrind\perthynas (14%). Ceir rhestr lawn o'r ffynonellau yn ffigur 4.2


**Ffigur 4.2: Ffynonellau gwybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant (y ganran a roddodd bob ymateb)**




*Sail: Pawb sydd erioed wedi chwilio am gyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad plant (111)*

4.5 Gan adlewyrchu poblogrwydd y rhyngrwyd fel ffynhonnell cyngor, pan ofynnwyd **sut yr oeddent yn cael gafael ar** wybodaeth a chyngor, roedd sianelau ar-lein megis gwefannau (54%) ac i raddau llai helaeth trafodaethau mewn ystafelloedd sgwrsio (12%) a diweddariadau trwy'r e-bost (7%) yn amlwg fel sianelau cymorth. Fodd bynnag, roedd cyngor wyneb yn wyneb yn sianel bwysig hefyd gyda 55% o'r rhai a oedd wedi cael gafael ar gymorth a chyngor yn gwneud hynny trwy'r dull hwn. Roedd llyfrau (18%) yn brif ddull arall a ddefnyddiwyd. Ceir rhestr lawn yn Ffigur 4.3.

**Ffigur 4.3: Sut yr oeddent yn cael gafael ar wybodaeth neu gyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant (y ganran a roddodd bob ymateb)**





*Sail: Pawb sydd erioed wedi chwilio am gyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad plant (111)*

4.6 Gofynnwyd cwestiynau tebyg yn arolwg 2015, er eu bod yn cyfeirio at gael gafael ar wybodaeth a chyngor ynghylch sgiliau rhianta yn hytrach nag yn benodol ynghylch rheoli ymddygiad plant ac felly ni ellir cymharu'r canlyniadau'n uniongyrchol. Fodd bynnag, ymddengys fod twf cymorth ar-lein yn duedd gyffredinol – dim ond 12% o'r rhai a gafodd afael ar gymorth gyda sgiliau rhianta oedd wedi gwneud hynny ar-lein yn 2015.

4.7 Mae'r mwyafrif llethol o'r rhai sydd wedi cael gafael ar gyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad plant yn dweud ei fod wedi cael dylanwad cadarnhaol ar eu sgiliau rhianta neu eu hyder – dywedodd 49% ei fod wedi helpu llawer a 46% ei fod wedi helpu ychydig.

4.8 Roedd y rhai a ddywedodd nad ydynt byth yn smacio eu plant yn fwy tebygol na'r rhai sy'n smacio weithiau o ddweud bod y cymorth y maent wedi'i gael wedi helpu llawer, gan ddynodi bod y rhai sy'n cael y budd mwyaf o'r cyngor hwn a'r wybodaeth hon yn llai tebygol o smacio eu plant. Fodd bynnag, mae maint y samplau'n fach ar y mesur hwn ac nid yw profion ystadegol yn cadarnhau y gellir cyffredinoli'r gwahaniaeth yn yr ymateb.

**Ffigur 4.4: I ba raddau yr oedd cyngor wedi helpu gyda sgiliau rhianta a hyder yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Pawb sydd erioed wedi chwilio am gyngor neu wybodaeth ynghylch rheoli ymddygiad plant (111)*

4.9 Gofynnwyd cwestiwn pellach i rieni a oedd wedi'i fwriadu i ddeall a oeddent wedi cael gafael ar gyngor a gwybodaeth mewn modd ychydig yn fwy goddefol. Roedd yn gofyn a oeddent wedi gweld gwybodaeth neu a oedd gwybodaeth wedi cael ei rhoi iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol, yn hytrach na'u bod wedi'i cheisio fel yr oedd y cwestiynau blaenorol yn ei ofyn.

4.10 Dywedodd cyfanswm o 19% o rieni eu bod wedi cael gwybodaeth yn y ffordd yma (Ffigur 4.5). Eto, roedd y rhai nad ydynt byth yn smacio'n fwy tebygol o ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth na'r rhai sy'n smacio weithiau, sy'n awgrymu'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â chael gafael ar wybodaeth. Fodd bynnag, mae profion ystadegol yn dangos na ellir tybio hyn â hyder na'i gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach.


**Ffigur 4.5: A oeddent wedi gweld gwybodaeth neu a oedd gwybodaeth wedi cael ei rhoi iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

4.11 Roedd yn fwyaf tebygol bod y rhai a oedd wedi cael gwybodaeth yn y ffordd fwy goddefol yma wedi'i chael trwy ymwelydd iechyd (48%), yr ysgol (27%), y rhyngrwyd (15%) neu weithiwr cymdeithasol (13%). Ceir rhestr lawn yn Ffigur 4.6.

**Ffigur 4.6: Sut y gwelont wybodaeth neu y rhoddwyd gwybodaeth iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol (y ganran a roddodd bob ymateb)**




*Sail: Pawb sydd wedi gweld gwybodaeth neu y rhoddwyd gwybodaeth iddynt am reoli ymddygiad plant neu ddewisiadau yn lle cosb gorfforol (62)*

**Dewisiadau yn lle smacio**

4.12 Roedd yr arolwg yn gofyn pa dechnegau eraill yr oedd rhieni wedi'u defnyddio yn y 6 mis diwethaf i helpu i reoli ymddygiad eu plant.

4.13 Mae'r canfyddiadau, wedi'u rhannu yn ôl pa un a yw rhieni'n smacio weithiau neu byth yn smacio wedi'u cynnwys yn Nhabl 4.1. Y peth cyntaf i'w nodi yw bod rhieni'n dweud eu bod yn defnyddio amrywiaeth o dechnegau i reoli ymddygiad, er ei bod yn werth nodi nad yw'r arolwg yn mesur pa mor aml y'u defnyddir.

4.14 Mae'r mwyafrif o dechnegau'n cael eu defnyddio gan o leiaf 8 rhiant ym mhob 10, gyda chanmol ymddygiad da (97%), datblygu gorchwylion rheolaidd (95%), dweud na (94%) a dweud y drefn wrthynt (94%) yn cael eu defnyddio gan bron bob rhiant.

4.15 Roedd y rhai sy'n smacio weithiau yr un mor debygol ar y cyfan o ddefnyddio technegau eraill â'r rhai nad ydynt byth yn smacio. Fodd bynnag, roedd dau faes lle canfuwyd gwahaniaethau sy'n arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y rhai sy'n smacio weithiau'n fwy tebygol o ddweud eu bod yn gweiddi ar eu plant (88% o'i gymharu â 60% o'r rhai nad ydynt byth yn smacio) a hefyd yn llai tebygol o neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae (79% o'i gymharu â 90%).

**Tabl 4.1: Technegau a ddefnyddiwyd yn y 6 mis diwethaf i reoli ymddygiad plant yn ôl pa un a allan smacio weithiau ai peidio**

| | Pawb | Byth yn smacio | Yn smacio weithiau |
|---|---|---|---|
| **Technegau a ddefnyddiwyd yn y 6 mis diwethaf** | | | |
| Canmol ymddygiad da | 97 | 98 | 93 |
| Datblygu gorchwylion rheolaidd | 95 | 97 | 90 |
| Dweud na | 94 | 95 | 92 |
| Dweud y drefn wrthynt | 94 | 94 | 92 |
| Defnyddio fy ymddygiad fy hun i osod esiampl | 92 | 94 | 89 |
| Gwobrwyo ymddygiad da | 88 | 88 | 87 |
| Rhesymu gyda hwy | 87 | 86 | 91 |
| Neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae | 87 | 90 | 79 |
| Eu hatal rhag gwneud rhywbeth y maent yn hoff o'i wneud | 82 | 79 | 88 |
| Troi eu sylw at rywbeth arall pan ydynt yn gwneud rhywbeth o'i le | 82 | 84 | 81 |
| Gwneud iddynt gymryd cyfnod callio \ 'stepen ymddygiad drwg' | 73 | 69 | 80 |
| Cyfrif i 3 | 71 | 76 | 71 |
| Gweiddi arnynt | 69 | 60 | 88 |
| Peidio â siarad gyda hwy \ rhoi sylw iddynt | 41 | 43 | 39 |

*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

4.16 Pan ofynnwyd pa dechneg oedd yn cael yr effaith fwyaf ar reoli ymddygiad eu plant, dywedwyd mai troi eu sylw at rywbeth arall pan ydynt yn gwneud rhywbeth o'i le oedd fwyaf effeithiol (58%). Roedd hyn yn wir am y grŵp nad ydynt byth yn smacio ac sy'n smacio weithiau.

**Tabl 4.2: Y dechneg fwyaf effeithiol i reoli ymddygiad plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio**

| | Pawb | Byth yn smacio | Yn smacio weithiau |
|---|---|---|---|
| **Y dechneg fwyaf effeithiol** | | | |
| Troi eu sylw at rywbeth arall pan ydynt yn gwneud rhywbeth o'i le | 58 | 61 | 53 |
| Gwneud iddynt gymryd cyfnod callio \ 'stepen ymddygiad drwg' | 42 | 38 | 50 |
| Eu hatal rhag gwneud rhywbeth y maent yn hoff o'i wneud | 30 | 27 | 38 |
| Rhesymu gyda hwy | 26 | 29 | 20 |
| Peidio â siarad gyda hwy \ rhoi sylw iddynt | 18 | 19 | 18 |
| Cyfrif i 3 | 18 | 16 | 22 |
| Gwobrwyo ymddygiad da | 16 | 18 | 13 |
| Canmol ymddygiad da | 15 | 18 | 8 |
| Dweud na | 7 | 8 | 4 |
| Defnyddio fy ymddygiad fy hun i osod esiampl | 5 | 8 | - |
| Gweiddi arnynt | 4 | 1 | 10 |
| Datblygu gorchwylion rheolaidd | 3 | 2 | 6 |
| Dweud y drefn wrthynt | 3 | 2 | 4 |
| Neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae | 2 | 2 | 1 |

*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*


## Barn am y gyfraith mewn perthynas â smacio

4.17 Y sefyllfa gyfreithiol bresennol mewn perthynas ag smacio yng Nghymru yw bod rhieni ac oedolion sy'n gweithredu yn lle rhiant yn gallu dibynnu ar yr amddiffyniad cosb resymol yn erbyn cyhuddiad o ymosodiad cyffredin. Nid yw rhieni sy'n achosi anaf corfforol i'w plant yn gallu defnyddio'r amddiffyniad cosb resymol ar gyfer cyhuddiadau o greulondeb, clwyfo neu ymosodiadau sy'n achosi gwir niwed corfforol neu niwed corfforol difrifol. Mae canllawiau Gwasanaeth Erlyn y Goron yn egluro, "er y gall unrhyw anaf sy'n fwy nag un 'dros dro neu fach' berthyn i'r dosbarth gwir niwed corfforol, cyhuddiad o Ymosodiad Cyffredin fydd yr un priodol lle nad oes anaf neu lle ceir anafiadau nad ydynt yn ddifrifol".

4.18 Roedd tua hanner (53%) y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn meddwl nad oedd y gyfraith "yn caniatáu i rieni smacio'u plant". Roedd tua thraean (33%) yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio a dywedodd y 14% sy'n weddill nad oeddent yn siŵr.

4.19 Roedd rhai gwahaniaethau ymhlith y rhai nad ydynt byth yn smacio eu plant a'r rhai sy'n smacio eu plant weithiau, yn fwyaf nodedig y ffaith bod mwy o'r rhai sy'n smacio'u plant weithiau'n ansicr a oedd y gyfraith yn caniatáu smacio, ond mae profion ystadegol yn cadarnhau nad yw'r gwahaniaeth ym mhatrwm yr ymatebion yn arwyddocaol ac felly nad yw'n darparu tystiolaeth bod cysylltiad rhwng gwybodaeth am ddeddfwriaeth a'r tebygolrwydd y bydd rhieni'n dweud eu bod yn smacio.

**Ffigur 4.7: A ydynt yn credu bod y gyfraith yn caniatáu i rieni smacio plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

4.20 Wedyn cafodd rhieni wybod bod y gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni smacio eu plant neu eu disgyblu'n gorfforol a gofynnwyd iddynt am lefel y gosb yr oedd y gyfraith yn ei chaniatáu yn eu tyb hwy. Mae'r opsiynau a roddwyd iddynt i'w gweld yn nhabl 4.3 ynghyd â chyfran y rhieni a oedd yn meddwl bod pob lefel yn cael ei chaniatáu (gallai rhieni ddewis mwy nag un opsiwn).

4.21 Roedd tua thri chwarter (72%) y rhieni'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu cosb nad yw'n gadael unrhyw farc ar y plentyn. Roedd llawer llai (27%) yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu gadael marc coch dros dro ar y croen. Dim ond cyfran fach iawn oedd yn meddwl bod y gyfraith yn caniatáu lefelau uwch o gosb gorfforol megis rhywbeth sy'n gadael clais am ychydig ddiwrnodau (1%) neu'n gadael marciau neu gleisiau sy'n para am fwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n achosi anaf corfforol parhaol (1%).

4.22 Er bod rhai gwahaniaethau rhwng y rhai nad ydynt byth yn smacio a'r rhai sy'n smacio weithiau, nid yw hyn yn gyson – h.y. mae mwy o'r grŵp sy'n smacio weithiau'n credu bod y gyfraith yn caniatáu gadael marc coch dros dro (32% o'i gymharu â 25% o'r grŵp nad ydynt byth yn smacio), ond mae'r gwrthwyneb yn wir o ran credu bod y gyfraith yn caniatáu cosb nad yw'n gadael marc o gwbl ar y plentyn (69% o'i gymharu â 74%). Ar ben hynny, mae'r unig ymatebwyr sy'n credu bod y gyfraith yn caniatáu'r lefelau uwch o gosb gorfforol (marciau a chleisiau) i'w cael yn y grŵp nad ydynt byth yn smacio.

**Tabl 4.3: A yw rhieni'n meddwl bod y gyfraith yn caniatáu lefelau amrywiol o gosb gorfforol yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio**

| | Pawb | Byth yn smacio | Yn smacio weithiau |
|---|---|---|---|
| **Lefel y gosb gorfforol** | **%** | **%** | **%** |
| Yn peidio â gadael unrhyw farc o gwbl ar y plentyn | 72 | 74 | 69 |
| Yn gadael marc coch dros dro ar y croen | 27 | 25 | 32 |
| Yn gadael clais sy'n para am ychydig ddyddiau | 1 | 2 | - |
| Yn gadael marciau neu gleisiau sy'n para am fwy nag ychydig ddyddiau ond nad yw'n achosi anaf corfforol parhaol | 1 | 1 | - |
| Ddim yn gwybod | 9 | 9 | 9 |


*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

4.23 Gofynnwyd i rieni hefyd am eu barn ynglŷn â newid deddfwriaethol. Defnyddiwyd dau gwestiwn a oedd wedi'u geirio'n wahanol: y naill yn gofyn a ddylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio'u plant; a'r llall yn gofyn a ddylai rhieni gael eu gwahardd yn llwyr rhag taro'u plant, hyd yn oed eu smacio fel cosb. Dangosir barn rhieni am hyn, o ran i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno, yn Ffigur 4.8.

4.24 Er bod elfen o safbwyntiau cymysg ar y pwnc, pan ofynnwyd a ddylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio'u plant, mae'r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda'r rhai sy'n meddwl na ddylid caniatáu smacio: mae 50% yn anghytuno y dylai gael ei ganiatáu, ac mae 24% yn cytuno y dylai.

4.25 Pan ofynnwyd a ddylai fod gwaharddiad llwyr, eto mae'r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda'r rhai sy'n meddwl na ddylai smacio gael ei ganiatáu, ond yma mae'r bwlch yn llai – mae 48% yn cytuno y dylai fod gwaharddiad llwyr, mae 39% yn anghytuno.

**Ffigur 4.8: Agweddau tuag at ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio (y ganran a roddodd bob ymateb)**




*Sail: Pawb (269)*


4.26 Gan hynny, mae rhai pobl sy'n arddel safbwynt anghyson yr olwg, o ran nad ydynt yn meddwl y dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio'u plant, ond eu bod heb ddweud eu bod yn cefnogi gwaharddiad llwyr ac mae dadansoddiad yn dangos bod hyn yn wir am 8% o rieni. Mae hyn yn amlygu cymhlethdod y mater hwn ac efallai'n awgrymu bod rhai rhieni nad ydynt yn dymuno i'r gyfraith ddweud yn agored y gall rhieni smacio, ond nad ydynt am i waharddiad llwyr gael ei gynnwys mewn deddfwriaeth ychwaith.

4.27 Mae Ffigur 4.9 yn cymharu canlyniadau o'r arolwg hwn â'r rhai o'r cwestiwn cyfatebol yn 2015. Canfuwyd canlyniadau tebyg yn 2015 yn yr ystyr bod gwahaniaeth barn ynglŷn â'r ddau fesur ond bod gogwydd tuag at newid deddfwriaethol. Ymddengys fod y bwlch rhwng y rhai sydd o blaid ac yn erbyn wedi cynyddu ychydig yn 2017. Mae'r newid ym mhatrwm yr ymatebion dros y ddau gyfnod yma ar gyfer agweddau tuag at y gosodiad *dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni smacio'u plant* yn wahaniaeth sy'n arwyddocaol yn ystadegol ac felly gellir ei gyffredinoli i'r boblogaeth ehangach. Fodd bynnag, ysgogwyd y gwahaniaeth gan ostyngiad yn y rhai sy'n cytuno â'r gosodiad a chynnydd yn y rhai sy'n dweud eu bod

yn ansicr (yn peidio â chytuno nac anghytuno) yn hytrach na chynnydd yn y rhai sy’n anghytuno y dylai’r gyfraith ganiatáu i rieni smacio’u plant.

4.28 Nid yw’r gwahaniaeth rhwng 2015 a 2017 o ran agweddau tuag at y cwestiwn a ddylai fod gwaharddiad llwyr ar gosb gorfforol, gan gynnwys smacio fel cosb, yn cael ei gadarnhau gan brofion ystadegol ac felly ni allwn gyffredinoli bod mwy o gefnogaeth i waharddiad.

**Ffigur 4.9: Agweddau tuag at ddeddfwriaeth mewn perthynas â smacio – 2017 o’i gymharu â 2015 (y ganran a roddodd bob ymateb)**




*Base: All (2017 – 269, 2015 - 382)*

## 5. Yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*


5.1 Tuag at ddiwedd yr arolwg gofynnwyd cyfres o gwestiynau i rieni am yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*.

5.2 O ystyried natur yr arolwg (dros y ffôn) nid oedd modd dangos unrhyw ddeunyddiau sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch i ymatebwyr ond rhoddwyd disgrifiad iddynt o'r hysbysebion / taflenni / posteri a chawsant hefyd broc i'r cof gyda rhai o'r sloganau 'Bedtimes without the battles', 'Bathtime without the tears', 'Shopping without the stropping', a 'Mealtimes without the meltdowns'. Ar y sail hon gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am yr ymgyrch.

5.3 Ar y sail hon, nid yw'n ymddangos bod yr ymgyrch wedi cyflawni ymwybyddiaeth eang eto. Dywedodd cyfanswm o 8% o rieni plant 0-6 oed eu bod wedi gweld neu glywed unrhyw beth am yr ymgyrch.

5.4 Roedd ymwybyddiaeth o'r ymgyrch ychydig yn uwch ymhlith menywod na dynion (10% o'i gymharu â 4%) er nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol. Roedd y rhai 30-34 oed hefyd yn fwy tebygol o fod yn ymwybodol o'r ymgyrch na grwpiau oedran eraill ac roedd hyn yn arwyddocaol yn ystadegol.


**Ffigur 5.1: Ymwybyddiaeth o'r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn ôl rhywedd ac oedran y rhiant (%)**




*Sail: Pawb (269), Dynion (99), Menywod (170), dan 25 (10), 25 to 29 (55), 30 to 34 (70), 35 to 39 (81), 40+ (53)*

5.5 Ymhlith y rhieni hynny a ddywedodd eu bod ‘yn smacio weithiau’ ac nad ydynt ‘byth yn smacio’ fel a ddiffiniwyd mewn adrannau blaenorol yn yr adroddiad hwn, roedd ymwybyddiaeth o’r ymgyrch yn debyg iawn (7% ac 8% yn y drefn honno).

**Ffigur 5.2: Ymwybyddiaeth o’r ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Pawb (269), Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*


5.6 Gofynnwyd y cwestiynau sy’n weddill am yr ymgyrch i’r rhai a oedd yn ymwybodol ohono. O ystyried yr ymwybyddiaeth isel o’r ymgyrch, dim ond gan nifer fach o ymatebwyr y cafodd y cwestiynau hyn eu hateb (21, maint sampl wedi’i bwysoli). Gan hynny, dylid mynd ati gan bwyll wrth archwilio’r canlyniadau.

5.7 Pan ofynnwyd, heb broc i’r cof, am brif negeseuon yr ymgyrch, nid oedd tua dwy ran o bump (42%) yn gallu rhoi manylion, sy’n dynodi bod ymwybyddiaeth y grŵp yma o’r ymgyrch o bosibl yn arwynebol.

5.8 Fodd bynnag, roedd eraill a oedd yn gallu cofio'r nodau bwriadedig – dywedodd 48% (o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch) mai un o brif negeseuon yr ymgyrch oedd 'rhianta cadarnhaol'. Cyfeiriodd eraill at 'gymryd amser / treulio amser' gyda phlant, 'cynghorion a thechnegau – e.e. gwobrwyon / canmol, anwybyddu ymddygiad dieisiau' ac 'osgoi straen / peidio â chynhyrfu' fel y negeseuon yr oeddent hwy'n eu cofio.

5.9 Ceir rhestr lawn o'r negeseuon yr oedd ymatebwyr yn eu cofio yn Ffigur 5.3. Dangosir meintiau'r sampl mewn cromfachau ochr yn ochr â'r canrannau o ystyried y sail fach ar gyfer y cwestiwn hwn.


**Ffigur 5.3: Negeseuon yr ymgyrch a oedd yn cael eu cofio ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol ohono (Mae'r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau))**




*Sail: Pawb a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo (26)*

5.10 Cafodd y rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch broc i'r cof gyda nifer o weithgareddau sy'n ymwneud â'r ymgyrch a gofynnwyd a oeddent wedi eu gwneud. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 5.4. Nid oedd tua dwy ran o dair wedi gwneud unrhyw weithgareddau. Darllen taflen neu lyfryn *Magu plant. Rhowch amser iddo* oedd y gweithgaredd yr oeddent yn fwyaf tebygol o fod wedi'i wneud (26% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch). Roedd llai wedi ymweld â thudalen Facebook (9%) neu wefan (6%) yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo*.

**Ffigur 5.4: Gweithgareddau a wnaed gan y rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch (Mae'r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau)**




*Sail: Pawb a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo (26)*

5.11 Gofynnwyd i'r rhai a oedd wedi gwneud unrhyw weithgareddau ac felly wedi gweld deunyddiau'r ymgyrch a oedd y deunyddiau wedi gwella'u sgiliau rhianta a'u hyder. Ymhlith y grŵp bach iawn hwn (7 ymatebydd wedi'u pwysoli), roedd y farn yn gymysg:

- Dywedodd 2 eu bod wedi'u helpu 'llawer';
- Dywedodd 2 eu bod wedi helpu 'ychydig';
- Dywedodd 3 nad oedd wedi helpu 'o gwbl'.

5.12 Gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ymgyrch ond nad oeddent wedi gwneud unrhyw weithgareddau a oeddent wedi cael cynnig taflen *Magu plant. Rhowch amser iddo* neu wedi cael gwybod am y wefan neu'r dudalen Facebook. Dim ond 10% (1 allan o 13 ymatebydd, wedi'u pwysoli) ddywedodd eu bod wedi cael cynnig taflen neu wedi cael eu cyfeirio at y wefan/y dudalen Facebook.


5.13 Yn olaf, darllenwyd nifer o osodiadau i bawb a ddywedodd i ddechrau eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am yr ymgyrch a gofynnwyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno â phob gosodiad. Dangosir y canlyniadau yn Ffigur 5.5. Gyda phob gosodiad ymatebodd cyfran uchel trwy ddweud nad oeddent yn gwybod ac

mae hyn yn adlewyrchu’r ffaith bod llawer o’r rhai a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o’r ymgyrch yn methu â chofio unrhyw un o’i negeseuon ac na fu llawer o ryngweithio â deunyddiau’r ymgyrch fel a nodir yn Ffigur 5.3 a 5.4.

5.14 Ymhlith y nifer fach iawn a gynigiodd farn:

- roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod yr wybodaeth yn glir ac yn anghytuno bod gormod o wybodaeth;
- roedd mwy’n cytuno nag yn anghytuno bod y deunyddiau ‘wedi gwneud i mi feddwl o ddifrif’;
- roedd mwy’n anghytuno ei fod ‘heb wneud unrhyw wahaniaeth i’r hyn yr wyf yn ei wneud’;
- roedd gwahaniaeth barn wrth ystyried a oedd wedi ‘dweud rhywbeth newydd wrthynt’

**Ffigur 5.5: Cytundeb â gosodiadau am yr ymgyrch ymhlith y rhai a oedd yn ymwybodol ohono. (Mae’r siart yn dangos y ganran a roddodd bob ymateb (mae niferoedd yr ymatebwyr mewn cromfachau))**




*Sail: Pawb a ddywedodd eu bod yn ymwybodol o’r ymgyrch Magu plant. Rhowch amser iddo (26)*

## 6. Casgliadau

6.1 Mae’r adroddiad hwn wedi cyflwyno canfyddiadau arolwg dros y ffôn a weinyddwyd gan gyfwelyddion gyda rhieni plant 6 oed neu iau. Diben yr arolwg oedd archwilio agweddau rhieni tuag at reoli ymddygiad plant. O ystyried natur sensitif y materion a oedd yn cael eu trafod fel rhan o’r arolwg, mae’n debygol y bydd bias dymunoldeb cymdeithasol wedi effeithio ar yr arolwg i ryw raddau.

6.2 Er bod angen cadw dymunoldeb cymdeithasol mewn cof wrth ddehongli’r canlyniadau, mae’n deg tybio y bydd wedi bod yn bresennol i’r un graddau yn yr arolwg cyfatebol o rieni yn 2015. Felly mae modd dwyn cymhariaeth gywir.

6.3 Mae cymharu rhai o’r mesurau allweddol o’r arolygon hyn yn dynodi y bu rhywfaint o newid mewn agweddau tuag at smacio ymhlith rhieni plant 0 i 6 oed dros y cyfnod hwn. Mae llai o rieni bellach yn dweud eu bod yn smacio plentyn dan rai amgylchiadau penodol (31%) nag a ddywedodd hynny yn arolwg 2015 (44%).

6.4 Ar ben hynny, mae’r gyfran o rieni plant 0 i 6 oed a ddywedodd eu bod wedi smacio’u plentyn yn y 6 mis diwethaf wedi gostwng hefyd o 22% yn 2015 i 11% yn 2017.

6.5 Ceir cysondeb ar draws y ddau arolwg o ran y ffactorau y cafwyd eu bod yn gysylltiedig ag ymddygiad smacio y dywedwyd amdano. Canfu arolwg 2017 ac arolwg 2015 fod ffactorau amgylchiadol yn bwysig. Roedd rhieni’n fwy tebygol o ddweud eu bod yn smacio os oeddent o’r farn ei bod yn briodol smacio plant i atal perygl iddynt hwy eu hunain neu i blant eraill neu pan oedd ymddygiad allan o reolaeth neu fel cosb am ymddygiad drwg.

6.6 Canfu gwaith i ddadansoddi’r arolwg fod agweddau tuag at yr amgylchiadau hyn yn rhagfynegydd gwell ar gyfer ymddygiad smacio y dywedir amdano na newidynnau demograffig megis oedran, rhywedd, amddifadedd, cyrhaeddiad addysgol neu aelwydydd â rhiant sengl/mwy nag un rhiant, lle na chanfuwyd unrhyw gysylltiadau arwyddocaol. Fodd bynnag, nid yw hynny’n golygu nad ydynt yn bodoli; mae’n bosibl y gallai sampl fwy ddatgelu cysylltiadau sy’n fwy arwyddocaol yn ystadegol.

6.7 Y tu hwnt i ffactorau amgylchiadol, canfu’r arolwg fod cysylltiad rhwng bodlonrwydd ar yr ardal y maent yn byw ynddi ac ymddygiad smacio y dywedwyd amdano er nad yw hyn i’w weld fel pe bai’n ymestyn i ffactorau llesiant eraill megis bodlonrwydd ar fywyd ar y cyfan, iechyd neu’r cartref.

6.8 Canfu’r arolwg fod rhieni’n defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau eraill i helpu i reoli ymddygiad eu plant a bod rhieni sy’n dweud eu bod yn smacio’r un mor debygol o ddefnyddio’r rhan fwyaf o’r rhain ag ydyw’r rhai nad ydynt byth yn smacio. Fodd bynnag, roedd y rhai sy’n dweud eu bod yn smacio’n llai tebygol o ddweud eu bod yn neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae.

6.9 Canfu’r arolwg fod dwy ran o bump o rieni wedi ceisio gwybodaeth a chyngor ynghylch rheoli ymddygiad plant. Ymddengys fod rhieni’n gynyddol yn chwilio ar-lein am gyngor a chymorth i reoli ymddygiad plant ac felly bydd eu cyfeirio at ffynhonnell hygred yn bwysig. Ystyriaeth bellach yw sicrhau bod y rhai ac arnynt fwyaf angen y cyngor yn cael eu cymell neu eu cyfarwyddo i ddod o hyd i gyngor yn y lle cyntaf. Canfu’r arolwg fod y rhai sy’n dweud eu bod yn smacio ychydig yn llai tebygol o fod wedi chwilio am gyngor na’r rhai sy’n dweud nad ydynt yn smacio er nad oedd y gwahaniaeth yn arwyddocaol.

6.10 Ar sail tystiolaeth o’r arolwg hwn, hyd yma dim ond rôl gyfyngedig fu gan yr ymgyrch *Magu plant. Rhowch amser iddo* gan Lywodraeth Cymru fel ffynhonnell cyngor ar gyfer rhieni y cyfwelwyd â hwy. Roedd wyth y cant o’r rhieni’n ymwybodol o’r ymgyrch, er mai un o gyfyngiadau’r arolwg dros y ffôn yw mai dim ond ar sail y ffaith bod rhieni’n adnabod enw’r ymgyrch a’r disgrifiad ohono a roddir gan y cyfwelydd y gellir barnu ynghylch ymwybyddiaeth gan nad oedd yn bosibl dangos deunyddiau’r ymgyrch iddynt.

6.11 Er y bu gostyngiad yn y gyfran o’r rhieni sy’n dweud eu bod yn smacio, ni fu unrhyw newid sy’n arwyddocaol yn ystadegol yn y rhai sy’n cytuno y *dylai rhieni gael eu gwahardd yn llwyr rhag taro’u plant, hyd yn oed eu smacio fel cosb* ac mae safbwyntiau cymysg o hyd am y pwnc yma. Fodd bynnag, mae’r cydbwysedd barn yn gorwedd gyda chefnogi’r gwaharddiad - 48% yn cytuno, 39% yn anghytuno.

# Atodiad 1 – Holiadur

Bore da/pnawn da/noswaith dda.  A gaf i siarad â [ENW]?

CYFARWYDDYD I'R CYFWELYDD:  CEISIWCH GAEL GAIR Â'R PERSON A ENWYD AR Y FFRÂM SAMPLU.  OS NAD YW HYNNY'N BOSIB, HYD YN OED DRWY APWYNTIAD, CEISIWCH GAEL GAIR Â RHIANT NEU WARCHEIDWAD ARALL YN Y CARTREF.

**CODIWCH PWY SY'N GWNEUD Y CYFWELIAD**

1: Yr atebwr gwreiddiol o'r gronfa ddata
2: Atebwr arall (CADARNHEWCH ENW'R ATEBWR)

OS ATEBWR ARALL:
**1.B CADARNHEWCH ENW'R ATEBWR**: ______________________________

**2.** Fy enw i yw *? AGENTNAME o Beaufort Research ac rwy'n galw ar ran Llywodraeth Cymru.  Pan wnaethoch chi gyfrannu at Arolwg Cenedlaethol Cymru, fe wnaethoch nodi y byddech yn hapus i ni gysylltu â chi eto. Ydy hynny'n wir o hyd?

• Ydy
• Nac ydy - OS NAC YDY YW'R ATEB, DIOLCHWCH I'R CYFRANOGWR AM EU HAMSER A DEWCH Â'R CYFWELIAD I BEN.

OS YDY OEDD YR ATEB
Diolch.  Rydym ar hyn o bryd yn cynnal arolwg ffôn i ganfod barn rhieni am ystod o faterion yn ymwneud â sut mae rhieni yn rheoli ymddygiad eu plant ac o le maent yn cael gwybodaeth am faterion magu plant.

Rydym yn siarad â rhieni ledled Cymru, a bydd y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i lywio sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rhieni.  Bydd ymatebion yr arolwg yn cael eu crynhoi mewn adroddiad, a ni fyddwch chi'n cael eich adnabod mewn unrhyw ffordd.

Bydd eich ymatebion i'n cwestiynau yn cael eu cadw'n gwbl gyfrinachol oni bai eich bod yn dweud wrthyf eich bod chi neu eich plentyn/plant mewn perygl sylweddol o niwed.

Bydd y wybodaeth y byddwch chi a rhieni eraill yn ei rhoi i ni yn ystod y cyfweliadau yn cael ei gwneud yn gwbl ddienw.

Ni ddylai'r cyfweliad gymryd mwy na 15 munud.  Gallwch stopio'r sgwrs ar unrhyw adeg a neidio dros unrhyw gwestiynau nad ydych yn dymuno eu hateb.

Ydych hi'n hapus i fwrw ymlaen (nawr neu rhywbryd eto)?
• Ydw - OS 'YDW' BWRIWCH YMLAEN
• NA – OS NA, DIOLCHWCH IDDYNT AM EU HAMSER A DEWCH Â'R CYFWELIAD I BEN

**3 Gallwn gynnal y cyfweliad yn Gymraeg neu Saesneg. Pa iaith sydd well gennych?**

1: Saesneg
2: Cymraeg

**PARHEWCH GAN DDEFNYDDIO IAITH DDEWISOL YR ATEBWR**

**4. I ba un o'r grwpiau oedran canlynol ydych chi'n perthyn?**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. O dan 25
2. 25 i 29
3. 30 i 34
4. 35 i 39
5. 40 neu drosodd

**5. Ydych chi'n rhiant neu warcheidwad i un neu fwy o blant 6 oed neu iau?**

1. Ydw
2. Nac ydw
3. Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
4. Refused (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**6. Faint o blant sydd gennych?**
1
2
3
4
5
6
7
8
9
10
Ddim yn gwybod
Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**7. A beth yw eu hoedran?**

RHOWCH OEDRAN POB PLENTYN MEWN BLYNYDDOEDD. OS YW’N LLAI NA 1 MLWYDD OED COFNODWCH FEL "0"

Plentyn 1_____________
Plentyn 2_____________
Plentyn 3_____________
Plentyn 4_____________
Plentyn 5_____________
Plentyn 6_____________
Plentyn 7_____________
Plentyn 8_____________
Plentyn 9_____________
Plentyn 10_____________

**8. Beth yw eich perthynas â’r plant hyn?**

CODIWCH YR HOLL ATEBION PERTHNASOL

1. Mam
2. Tad
3. Llysfam
4. Llystad
5. Gwarcheidwad benywaidd
6. Gwarcheidwad gwrywaidd
7. Gofalwr maeth benywaidd
8. Gofalwr maeth gwrywaidd
9. Arall (NODWCH)
10. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**Lles a Magu Plant**

**9. I ba raddau ydych yn fodlon neu'n anfodlon â'r agweddau canlynol o'ch sefyllfa ar hyn o bryd.**

DARLLENWCH YN UCHEL

a) Fy iechyd
b) Fy nghartref
c) Fy mherthynas (os yn berthnasol)
d) Ymddygiad fy mhlant
e) Yr ardal rwyf yn byw
f) Fy mywyd yn gyffredinol

1. Bodlon iawn
2. Eithaf bodlon
3. Ddim yn fodlon nac yn anfodlon
4. Eithaf anfodlon
5. Anfodlon iawn
6. Ddim eisiau ateb
7. Ddim yn berthnasol

**10. Nodwch i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol.**

DARLLENWCH YN UCHEL

a) Rwy'n teimlo'n agos at fy mhlentyn/plant
b) Mae gofalu am fy mhlentyn/plant weithiau'n cymryd mwy o amser ac egni nag sydd gennyf i'w rhoi
c) Mae cael plentyn/plant yn gadael ychydig o amser a hyblygrwydd yn fy mywyd
d) Rwy'n mwynhau treulio amser gyda fy mhlentyn/plant
e) Mae ymddygiad fy mhlentyn/plant yn aml yn embaras neu'n straen i mi

1. Cytuno'n gryf
2. Cytuno ychydig bach
3. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Anghytuno ychydig bach
5. Anghytuno'n gryf
6. Ddim yn gwybod
7. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**Agweddau**

**11. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno ei bod hi'n ofynnol weithiau i daro plentyn drwg? Ydych chi'n…?**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. Cytuno'n gryf
2. Cytuno ychydig bach
3. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Anghytuno ychydig bach
5. Anghytuno'n gryf
6. Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
7. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**12. A yw hyn yn rhywbeth rydych erioed wedi [cytuno/anghytuno] gyda neu a ydych wedi newid eich barn ar y mater dros y blynyddoedd?**

1. Wedi cytuno erioed
2. Wedi anghytuno erioed
3. Mae fy marn ar y mater wedi newid dros y blynyddoedd
4. Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
5. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**GOFYN OS WEDI NEWID BARN YN Q12:**
**12.a Pam mae eich barn ar y mater wedi newid dros y blynyddoedd?**

____________________________________________________________

____________________________________________________________

**GOFYN I BAWB**
**13. O'r rhestr hon, pa un o'r datganiadau sydd agosaf at eich barn bersonol ar daro eich plentyn/plant?**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. Rwy'n meddwl ei fod bob amser yn anghywir i daro plentyn, ac ni fyddaf yn gwneud hynny
2. Nid wyf yn hoffi'r syniad o daro plentyn, ond byddaf yn gwneud os na fydd dim byd arall yn gweithio
3. Rwy'n gyfforddus gyda'r syniad o daro plentyn a byddaf yn ei wneud pan fyddaf yn meddwl ei fod yn angenrheidiol
4. Ddim yn gwybod
5. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**14. Ydych chi'n meddwl ei bod yn briodol i riant daro plentyn o dan unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol?**
DARLLENWCH YN UCHEL

a) I'w hatal rhag gwneud rhywbeth sy'n beryglus neu'n niweidiol iddynt (er enghraifft, rhedeg allan i'r ffordd neu gyffwrdd â rhywbeth poeth)
b) I'w hatal rhag gwneud rhywbeth sy'n beryglus neu'n niweidiol i blentyn arall
c) Pan mae eu hymddygiad allan o reolaeth, e.e. pan maent yn gwylltio a strancio
d) Fel dewis olaf
e) Fel cosb am ymddygiad drwg

1. Ydy
2. Nac ydy
3. Ddim yn briodol i oedran
4. Ddim yn gwybod
5. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**15. Ydych chi'n meddwl fod y gyfraith yn caniatáu i rieni daro eu plant?**

1. Ydy
2. Nac ydy
3. Ddim yn gwybod

**16. Mae'r gyfraith ar hyn o bryd yn caniatáu i rieni daro eu plant neu ddefnyddio disgyblaeth gorfforol - pa lefel o gosb mae'r gyfraith yn ei ganiatáu yn eich barn chi? Dewiswch gymaint o atebion ac rydych chi'n meddwl sy'n berthnasol.**
**Cosb gorfforol sydd:**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. Ddim yn gadael unrhyw farc ar y plentyn
2. Yn gadael marc coch dros dro ar y croen
3. Yn gadael clais sy'n para ychydig ddyddiau
4. Yn gadael marciau a chleisiau sy'n para am fwy nac ychydig ddyddiau ond nad yw'n arwain at anaf corfforol parhaol
5. Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
6. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**17. Rwy'n mynd i ddarllen cwpl o ddatganiadau.  Fedrwch chi ddweud wrthyf i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un?**
DARLLENWCH YN UCHEL

a) Dylai'r gyfraith ganiatáu i rieni daro eu plant
b) Mae angen gwaharddiad llwyr ar rieni yn taro eu plant, hyd yn oed smacen fel cosb

1. Cytuno'n gryf
2. Cytuno ychydig bach
3. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Anghytuno ychydig bach
5. Anghytuno'n gryf
6. Ddim yn gwybod
7. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**18. Ydych chi'n meddwl y gallai newid y gyfraith yn ymwneud â defnyddio cosb gorfforol i ddisgyblu plentyn newid eich agwedd chi tuag at daro plant?**

1. Ydw
2. Nac Ydw
3. (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
4. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**<u>Ymddygiadau rhianta</u>**

**19. Wrth reoli ymddygiad eich plentyn, ydych chi wedi defnyddio unrhyw o’r technegau canlynol yn y chwe mis diwethaf?**
DARLLENWCH YN UCHEL

a) Cyfeirio eu sylw at rywbeth arall pan fyddant yn gwneud rhywbeth o'i le
b) 'Cyfrif i 3'
c) Gwneud iddynt gymryd 'amser allan' / fynd i'r 'gris drwg' neu’r 'mat drwg'
d) Ddim yn siarad â nhw / talu unrhyw sylw iddynt
e) Canmol ymddygiad da
f) Rhesymu gyda nhw
g) Gwobrwyo ymddygiad da (e.e. gyda melysion, sticeri)
h) Gweiddi arnynt
i) Taro nhw
j) Rhoi ffrae iddynt
k) Eu hatal rhag gwneud rhywbeth maen nhw'n hoffi ei wneud (er enghraifft, mynd â'u teganau neu eu gemau i ffwrdd, ddim gadael iddynt wylio'r teledu)
l) Datblygu trefn bob dydd e.e. o gwmpas prydau bwyd ac amseroedd cysgu
m) Neilltuo amser bob dydd ar gyfer gweithgareddau chwarae
n) Defnyddio fy ymddygiad fy hun i osod esiampl dda
o) Dweud na

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn briodol i oedran
4. Methu cofio
5. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**20 Pa dechnegau sydd wedi cael y mwyaf o effaith ar ymddygiad eich plentyn/plant, yn gyffredinol? HOLWCH YN FANWL: Pa rai eraill?**

**NODWCH**

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

**<u>Gwasanaethau Cefnogi Rhieni</u>**

**21. Ydych chi erioed wedi edrych am wybodaeth neu gyngor ar reoli ymddygiad plant?**

1. Do ➔ EWCH I Q21a
2. Naddo ➔ EWCH I Q23
3. Ddim yn gwybod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN) ➔ EWCH I Q23
4. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN) ➔ EWCH I Q23

**GOFYN OS 'DO' I Q21**
**21a O ble gawsoch chi'r wybodaeth neu'r cyngor?**
PEIDIWCH Â PHROCIO. CODIWCH YR HOLL ATEBION Y CYFEIRIR ATYNT.

1. Gweithiwr iechyd proffesiynol
2. Darparwr gofal plant
3. Meithrinfa neu ddarpariaeth cyn-ysgol
4. Ysgol
5. Gwasanaeth a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol
6. Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd
7. Meddygfa leol
8. Sesiynau neu grwpiau magu plant
9. Elusen
10. Cyfaill / perthynas
11. Y rhyngrwyd
12. Llinell ffôn gymorth
13. Arall (NODWCH)
14. Ddim yn gwybod
15. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**GOFYN OS 'DO' I Q21**
**21b Sut wnaethoch chi gael mynediad at y wybodaeth neu'r cyngor?**
DARLLENWCH YN UCHEL. CODIWCH YR HOLL ATEBION Y CYFEIRIR ATYNT.

1. Wyneb yn wyneb
2. Taflenni
3. Taflenni ffeithiau
4. Llyfrau
5. Cylchgronau
6. Llinell gymorth ffôn neu linell gyngor
7. Rhaglenni teledu ar fagu plant
8. Gwefan
9. Diweddariadau e-bost neu restr rydych wedi tanysgrifio iddi
10. Trafod mewn ystafell sgwrsio neu fforwm ar-lein
11. Negeseua gwib (Instant messaging)
12. Negeseuon testun
13. Defnyddio ap ffôn symudol
14. Arall (NODWCH)
15. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**GOFYN OS 'DO' I Q21**

**22. I ba raddau ydych yn meddwl bod y wybodaeth, y cymorth neu'r wybodaeth a gawsoch ar faterion magu plant wedi eich helpu i wella eich sgiliau magu plant neu eich hyder…?**

DARLLENWCH YN UCHEL

1. Llawer iawn
2. Ychydig
3. Dim o gwbl
4. Ddim yn berthnasol / ddim yn ceisio gwella sgiliau / hyder (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
5. Ddim yn gwybod
6. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**GOFYN I BAWB**

**23. Ydych chi wedi gweld neu wedi cael unrhyw wybodaeth o'r blaen ynghylch rheoli ymddygiad plant neu ddewisiadau amgen i gosb gorfforol?**

1. Do
2. Naddo
3. Methu cofio

**GOFYN OS 'DO' I Q23**

**Q24 Gan bwy neu o le?**

DARLLENWCH YN UCHEL

1. Ymwelydd iechyd
2. Meddyg teulu
3. Gweithiwr cymdeithasol
4. Ysgol
5. Grwp rhieni neu blant
6. Elusen megis Action for Children neu Barnardos
7. Y rhyngrwyd
8. Deunyddiau ysgrifenedig megis llyfr neu daflen
9. Arall (NODWCH)
10. Methu cofio

**<u>Ymgyrch 'Magu Plant.  Rhowch Amser Iddo'</u>**

**GOFYN I BAWB**

**25. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch o'r enw 'Magu Plant.  Rhowch Amser Iddo'. Efallai eich bod wedi gweld un o'u hysbysebion, taflenni neu bosteri wedi'u brandio mewn porffor a gwyrddlas gydag un o'r sloganau canlynol "Amser gwely heb y brwydrau"; "Amser bath heb y dagrau"; "Siopa heb y strancio" neu "Amseroedd bwyd heb y gweiddi".**

**Cyn heddiw, ydych chi wedi gweld neu wedi clywed unrhyw beth am yr ymgyrch 'Magu Plant.  Rhowch Amser Iddo'?**

1. Do
2. Naddo
3. Ddim yn gwybod

**GOFYN OS 'DO' I Q25**

**26. Sut wnaethoch chi ddod yn ymwybodol o'r ymgyrch 'Magu Plant.  Rhowch Amser Iddo'?**

**PEIDIWCH Â PHROCIO – CODIWCH I'R RHESTR ISOD – SGROLIWCH I LAWR I WELD Y RHESTR LLAWN**

1. Hysbyseb teledu
2. Teledu - S4C - Cyw
3. Poster - mewn arhosfan bws
4. Poster y tu allan i'r archfarchnad
5. Erthygl papur newydd
6. Hysbyseb yn The Primary Times
7. Erthygl mewn cylchgrawn
8. Taflen
9. Ar Facebook
10. Ar Twitter
11. Ar wefan Netmums
12. Gwefan – Magu Plant. Rhowch amser iddo
13. Gwefan - gwefan Llywodraeth Cymru
14. Unrhyw wefan arall (nodwch)
15. Rhyngrwyd / gwefan (amhenodol)
16. Hysbyseb yn y sinema
17. Mewn digwyddiad / sioe deithiol
18. Gan yr Ymwelydd iechyd
19. Yn y feddygfa
20. Yn y Llyfrgell
21. Meithrinfa / gwarchodwr plant
22. Cyfaill / teulu
23. Y Rhaglen Dechrau'n Deg
24. Yn y gwaith
25. Arall (nodwch)

**GOFYN OS 'DO' I Q25**
**27. Beth oedd prif negeseuon yr ymgyrch? HOLWCH YN FANWL: Beth oedd yr ymgyrch yn ceisio ei ddweud?**
**NODWCH**

______________________________________________

Ddim yn gwybod
Methu cofio

**GOFYN OS 'DO' I Q25**
**28. A pha rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych wedi'u gwneud…?**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. Wedi ymweld â'r wefan 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' (giveittime.gov.wales)
2. Wedi darllen taflen neu lyfryn 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'
3. Wedi ymweld â thudalen Facebook 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'
4. Wedi gwylio animeiddiad 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'
5. Dim o'r rhain

**GOFYN OS 'DIM O'R RHAIN' I Q28**
**29. Oes unrhyw un wedi cynnig taflenni neu lyfrynnau 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' i chi, neu wedi sôn am y wefan neu'r dudalen Facebook?**

1. Do – rwyf wedi cael cynnig taflen neu lyfryn 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' neu wedi cael fy nghyfeirio at y wefan/tudalen Facebook
2. Na - nid wyf wedi cael cynnig unrhyw ddeunyddiau 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo' na chael fy nghyfeirio at y wefan/tudalen Facebook
3. Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH OS 'DO' I Q29 (CAFODD ADNODDAU EU CYNNIG OND NID OEDDEM WEDI DARLLEN / DEFNYDDIO NHW YN Q28):**
**30 Pam na wnaethoch ddarllen y taflenni neu'r llyfrynnau, neu ymweld â'r wefan neu'r dudalen Facebook?**
PEIDIWCH Â PHROCIO

1. Nid oeddwn yn teimlo fy mod eu hangen
2. Nid oeddwn yn hoffi edrychiad y deunyddiau
3. Nid wyf yn hoffi deunyddiau ysgrifenedig
4. Nid oeddynt yn briodol ar gyfer anghenion fy nheulu
5. Diffyg amser
6. Arall (NODWCH)
7. Ddim yn gwybod

**GOFYNNWCH OS DEFNYDDIR UNRHYW DDEUNYDDIAU YN Q28:**
**31 I ba raddau wnaeth deunyddiau'r ymgyrch eich helpu i wella eich sgiliau magu plant neu eich hyder…?**
DARLLENWCH YN UCHEL

1. Llawer iawn
2. Ychydig
3. Dim o gwbl
4. Ddim yn berthnasol / ddim yn ceisio gwella sgiliau / hyder (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)
5. Ddim yn gwybod
6. Gwrthod (PEIDIWCH Â DARLLEN ALLAN)

**GOFYN OS COD 3 (DIM O GWBWL) I Q31:**
**32 Pam ydych yn dweud hynny?**
**PEIDIWCH AG AWGRYMU. NODWCH**

________________________________________________________________________

________________________________________________________________________

Ddim yn gwybod
Ddim yn ceisio gwella sgiliau / hyder

**GOFYN OS 'DO' I Q25 (WEDI GWELD NEU CLYEWD YMGYRCH)**
**33. yma ychydig o bethau mae pobl wedi'u dweud am yr ymgyrch 'Magu Plant. Rhowch Amser Iddo'. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda phob un o'r datganiadau? Yn gyntaf…**
DARLLENWCH YN UCHEL

a) Dywedodd rhywbeth newydd wrthyf
b) Ni wnaeth unrhyw wahaniaeth i'r hyn rydw i'n ei wneud
c) Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn glir
d) Roedd yna ormod o wybodaeth ar y deunyddiau
e) Fe wnaeth i mi feddwl

1. Cytuno'n gryf
2. Cytuno ychydig bach
3. Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
4. Anghytuno ychydig bach
5. Anghytuno'n gryf
6. Ddim yn gwybod

**DARLLENWCH YN UCHEL: Dyna ddiwedd yr arolwg, diolch yn fawr am eich amser a'ch cydweithrediad.**

**Dim ond i gadarnhau, fy enw i yw [ENW'R CYFWELYDD], rwyf yn ffonio o Beaufort Research ac mae'r arolwg hwn wedi cael ei gynnal yn unol â Chod Ymddygiad y Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad.**

**Os hoffech wirio ein cymwysterau, gallwch ffonio'r Gymdeithas Ymchwil i'r Farchnad ar y rhif rhadffôn 0800 975 9596.**

## Atodiad 2 – Pwysoli'r data

A2.1 Y ffrâm samplu ar gyfer yr arolwg hwn oedd 843 o rieni plant 0 i 5 oed (ar adeg y cyfweliad) y cyfwelwyd â hwy fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2016-2017 ac a oedd wedi cytuno ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy ar gyfer ymchwil bellach.

A2.2 Fel a nodwyd yn adran 2.2, cynhaliwyd cyfanswm o 269 o gyfweliadau gyda'r grŵp yma. O fewn y sampl hon o gyfweliadau mae potensial ar gyfer bias ar ddau gam:

1. Efallai na fyddai'r 843 o rieni a gytunodd ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy'n cynrychioli'r holl rieni a gymerodd ran yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.
2. Efallai na fyddai'r 269 o rieni a gymerodd ran yn yr arolwg yn cynrychioli'r 843 o rieni a gytunodd ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy.

A2.3 Gan hynny, mae angen i'r sampl derfynol o gyfweliadau gael ei phwysoli i sicrhau ei bod yn cywiro'r biasau posibl hyn a'i bod yn cynrychioli'r boblogaeth ehangach.

A2.4 Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn sampl tebygolrwydd ar hap o'r boblogaeth sy'n oedolion yng Nghymru sydd wedyn yn cael ei phwysoli i gynrychioli'r holl oedolion yng Nghymru'n llawn. Felly ystyrir bod y proffil o rieni a gyfwelwyd yn yr arolwg hwn (gan gynnwys y rhai a gytunodd ac na chytunodd ei bod yn iawn ail-gysylltu â hwy) yn cynrychioli'r ystod ehangach o rieni plant 0 i 5 oed.

A2.5 Felly, mae ein sampl o gyfweliadau wedi cael ei phwysoli i gyfateb i broffil pwysedig rhieni plant 0 i 5 oed o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-2017 yn ôl y ffactorau canlynol:

- Rhywedd y rhiant;
- Oedran y rhiant;
- Deiliadaeth;
- Math o aelwyd (aelwyd â rhiant sengl \ dau riant);
- Cwintel ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC).

## Tabl A.1 Targedau a ffactorau pwysoli

| | ACC 2016-2017 (targed %) | Sampl heb ei phwysoli % | Sampl pwysedig % | Ffactor pwysoli |
|---|---|---|---|---|
| **Cwintel amddifadedd** | | | | |
| C1 | 23 | 18 | 23 | 1.2449 |
| C2 | 21 | 13 | 21 | 1.6571 |
| C3 | 21 | 27 | 21 | 0.7534 |
| C4 | 19 | 23 | 19 | 0.8065 |
| C5 | 17 | 19 | 17 | 0.9216 |
| | | | | |
| **Rhywedd y rhiant** | | | | |
| Dyn | 43 | 37 | 43 | 1.1818 |
| Menyw | 57 | 63 | 57 | 0.8941 |
| | | | | |
| **Oedran y rhiant** | | | | |
| 24 neu iau | 16 | 4 | 16 | 4.2000 |
| 25 i 29 | 22 | 20 | 22 | 1.0545 |
| 30 i 34 | 25 | 26 | 25 | 0.9429 |
| 35 i 39 | 21 | 30 | 21 | 0.6914 |
| 40 neu drosodd | 18 | 20 | 18 | 0.8868 |
| | | | | |
| **Math o aelwyd** | | | | |
| Dau oedolyn | 74 | 80 | 74 | 0.9299 |
| Oedolyn sengl | 11 | 14 | 11 | 0.7435 |
| Arall | 15 | 6 | 15 | 2.5625 |
| | | | | |
| **Deiliadaeth** | | | | |
| Perchennog | 54 | 66 | 54 | 0.8156 |
| Preifat | 23 | 19 | 23 | 1.1600 |
| Cymdeithasol | 22 | 14 | 22 | 1.6486 |
| Arall | 2 | 1 | 2 | 1.3333 |


## Atodiad 3 – Dadansoddiadau ychwanegol yn ôl rhieni sy'n dweud eu bod yn smacio weithiau neu byth yn smacio

A3.1 Roedd Adran 3 o'r prif adroddiad yn rhoi dealltwriaeth am rai o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â rhieni sydd wedi dweud eu bod yn smacio dan rai amgylchiadau penodol. Mae'r atodiad hwn yn cynnwys dadansoddiad pellach o ffactorau ychwanegol lle ymchwiliwyd i'r berthynas â smacio y dywedwyd amdano, sef ffactorau demograffig ychwanegol ac agweddau tuag at ofalu am eu plentyn. Ni chanfuwyd cysylltiadau arwyddocaol yn y dadansoddiadau hyn.

### Ffactorau demograffig

A3.2 Mae Ffigur A.1 isod yn dangos dau ddadansoddiad pellach sy'n cymharu rhieni sy'n dweud eu bod yn smacio weithiau neu nad ydynt byth yn smacio – trefol / gwledig a deiliadaeth o ran pa un a yw'r ymatebydd yn berchentywr ai peidio. Ni chanfuwyd fod yn naill na'r llall o'r ffactorau hyn yn bwysig wrth ddeall ymddygiad smacio.

**Ffigur A.1: Trefol/ gwledig a deiliadaeth yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





### Gofalu am eu plentyn

A3.3 Gofynnwyd i rieni pa mor fodlon oeddent ar ymddygiad eu plentyn. Roedd y rhan fwyaf naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon (92%). Roedd y rhieni hynny a ddywedodd nad ydynt byth yn smacio ychydig bach yn fwy tebygol o fod yn fodlon ar ymddygiad eu plant (93% o'i gymharu ag 89%) ond nid yw'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly nid yw'r arolwg yn darparu unrhyw dystiolaeth bod

barn rhieni am ymddygiad eu plant yn gysylltiedig â smacio y dywedwyd amdano – gweler Ffigur A.2.

**Ffigur A.2: Bodlonrwydd ar ymddygiad eu plant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**





*Sail: Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*

A3.4 Gofynnwyd i rieni hefyd i ba raddau yr oeddent yn cytuno ag agweddau amrywiol ar ofalu am eu plentyn. Mae'r canlyniadau i'w gweld yn Ffigur A.3. Ceir rhai gwahaniaethau mewn ymatebion ymhlith y rhai nad ydynt byth yn smacio a'r rhai sy'n smacio weithiau.

A3.5 Roedd y rhai sy'n smacio weithiau'n fwy tebygol o gytuno â'r gosodiad *mae gofalu am fy mhlentyn/fy mhlant weithiau'n mynd â mwy o amser ac egni nag sydd gennyf i'w rhoi* (49% yn cytuno o'i gymharu â 42% ymhlith y rhai nad ydynt byth yn smacio) a'r gosodiad *mae bod â phlant yn golygu nad oes llawer o amser na hyblygrwydd yn fy mywyd* (52% yn cytuno o'i gymharu â 40%). Fodd bynnag, ni chadarnhawyd bod y naill na'r llall o'r gwahaniaethau hyn yn arwyddocaol yn ystadegol ac felly ni allwn ddweud yn hyderus bod y naill na'r llall yn gysylltiedig ag ymddygiad smacio y dywedwyd amdano.

**Ffigur A.3: Cytuno â gosodiadau am ofalu am blant yn ôl pa un a ydynt yn smacio weithiau ai peidio (%)**




*Sail: Byth yn smacio (169), Yn smacio weithiau (80)*